Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 29 Medi 2016 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 23 Medi 2016.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Walsh (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ali Ahmed, Dilwar Ali, Bale, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridges, Carter, Chaundy, Clark, Ralph Cook, Richard Cook, Cowan, Kirsty Davies-Warner, Chris Davis, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Ford, Goddard, Gordon, Govier, Graham, Groves, Hill-John, Hinchey, Holden, Howells, Hudson, Hunt, Hyde, Keith Jones, Margaret Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, Lloyd, Magill, Marshall, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Parry, Patel, Phillips, David Rees, Dianne Rees, Robson, Simmons, Stubbs, Thomas, Ben Thomas, Graham Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, White, Wild, Darren Williams a/ac Woodman

61 : MUNUD O DAWELWCH

Galwodd yr Arglwydd Faer am funud o dawelwch er cof y Cynghorydd Chris Lomax a fu farw yn gynnar ar 15 Gorffennaf 2016.

Arweiniodd y Cynghorydd Lynda Thorne fel cydweithiwr Ward y teyrngedau i'r Cynghorydd Lomaz a oedd wedi bod mor falch o gael ei ethol i wasanaethu cymuned Grangetown yn 2012. Roedd y Cynghorydd Lomax yn ymroddedig i gymuned Grangetown; ei deulu a'i deulu estynedig; a byddai ei waith yn gadael twll mawr yn y gymuned roedd yn ei gwasanaethu.

Siaradodd yr Arweinydd ac arweinwyr yr wrthblaid, cyd-gynghorydd ward Govier, yr Aelodau Cabinet a'r aelodaeth ehangach am ymrwymiad y Cynghorydd Lomax; parch a chyfeillgarwch croes-pleidiol; ei rôl fel Dirprwy Cadeirydd Cynllunio ac ar Bwyllgorau Craffu; Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yn y Cyngor.

Dywedodd yr Arglwydd Faer ei bod wedi ysgrifennu ar ran yr holl Aelodau at ei blant a'i deulu yn mynegi tristwch mawr am eu colled. Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o weld cynrychiolwyr o'r teulu yn yr oriel i glywed y teyrngedau hyfryd wedi'u talu i'w tad a'u tad-cu.

62 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Mae ymddiheuriadau am absenoldeb wedi'u derbyn gan y Cynghorwyr Manzoor Ahmed; Aubrey; Burfoot; Evans; Goodway; Derrick Morgan a Sanders.

Anfonodd yr Arglwydd Faer ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Burfoot ar ran holl Aelodau'r Cyngor.

63 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol: -

| **Cynghorydd** | **Buddiant** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Bradbury | Eitem 18: Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol – Buddiant personol – cais am ail-benodi. |
| Y Cynghorydd Clark | Eitem 18: Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol – Buddiant personol – cais am ail-benodi. |
| Y Cynghorydd Groves | Eitem 12: Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – buddiant personol yn derbyn taliadau uniongyrchol gwasanaethau gofal cartref, a phriod yn derbyn gwasanaethau gofal cartref gan y Cyngor.<br><br>Eitem 18: Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol – Buddiant personol – cais am ail-benodi. |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 12: Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Buddiant personol gan fod aelod o’r teulu yn derbyn Cyfleusterau Anabl.<br><br>Eitem 18: Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol – Buddiant personol – cais am ail-benodi. |
| Y Cynghorydd Hunt | Eitem 18: Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol – Buddiant personol – cais am ail-benodi. |
| Y Cynghorydd Margaret Jones | Eitem 18: Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol – Buddiant personol – cais am ail-benodi. |
| Y Cynghorydd Woodman | Eitem 12: Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Buddiant personol – Llywydd Anrhydeddus Diverse Cymru sy’n dosbarthu taliadau uniongyrchol ar gyfer Cyngor Caerdydd |

64 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 28 Gorffennaf fel gwir gofnod ar yr amod y cywirir y presenoldeb a'r ymddiheuriadau wedi’u nodi ar y daflen ddiwygiadau.

*Ar yr adeg hon yn y gweithrediadau, aeth yr Arglwydd Faer ymlaen at y cais gan y Cynghorydd McEvoy, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, oedd am wneud datganiad o esboniad personol mewn perthynas â materion yn codi yng Nghyfarfod y Cyngor ar 28 Gorffennaf 2016.*

Nododd y Cynghorydd McEvoy, er y gwnaeth Chwip y Blaid gyfraniad unigol gyda'r bwriadau gorau yn y cyfarfod diwethaf, nad oedd yn siarad ar ran y Grŵp Plaid a gofynnodd y Cynghorydd McEvoy fod yr esboniad personol hwn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

*Dywedodd yr Arglwydd Faer y byddai hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion ar gyfer y cyfarfod.*

65 : ISETHOLIAD PLASNEWYDD

Croesawodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Robin Rea i'w gyfarfod Cyngor cyntaf ar ôl cael ei ethol i'r swydd wag yn Adran Etholiadol Plasnewydd ar 20 Medi 2016.

Diolchodd y Cynghorydd Rea i gyd-gynghorwyr a swyddogion am ei groesawu'n fawr a'i gynorthwyo ers iddo gael ei ethol.

Talodd y Cynghorydd Rea deyrnged i'r Cynghorydd Javed oedd wedi gwasanaethu pobl Plasnewydd mor dda dros y 4 blynedd diwethaf a byddwn ni'n hiraethu amdano'n fawr. Roedd y Cynghorydd Rea yn gobeithio y gallai ymgymryd â'i rôl newydd gyda'r un caredigrwydd a'r un gostyngeiddrwydd â'r Cynghorydd Javed pan oedd yn gwasanaethu trigolion Plasnewydd.

Edrychodd y Cynghorydd Rea ymlaen at weithio gyda'r gymuned ar faterion a materion o bryder a gwella; ac roedd yn falch o gynrychioli etholwyr Plasnewydd ac ymgymryd â'i rôl fel Cynghorydd Sirol.

66 : DEISEBAU

1. Y Cynghorwyr Hudson a Bowden – 1804 llofnod (1704 e-ddeiseb a 100 deiseb ar bapur) i stopio cau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Heol Wedal;

2. Y Cynghorydd Rea – 418 llofnod yn gofyn i'r Cyngor lanhau Heol y Plwca; cymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r adeilad Gaiety sydd bellach yn adfail; a gwneud y ffordd yn fwy diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr;

Y Cynghorydd Dianne Rees – 202 o breswylwyr Tŷ Draw Road a Rhieni plant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Corpus Christi yn gofyn bod ffordd Tŷ Draw Road yn cael wyneb newydd yn frys i amddiffyn beicwyr a cheir wedi'u difrodi.

67 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cwestiwn 1

Cwestiwn y Cyhoedd: *Dr Ashley Wood*

Mae ceir sy’n goryrru wedi bod yn broblem ar gyfer preswylwyr yn Llantarnam Road a Margam a Caerleon Road ym Mynachdy ers amser maeth. Rwy’n deall bod y cyngor wedi llunio cynlluniau ar gyfer mesurau arafu'r ffordd yn flaenorol i fynd i'r afael â'r broblem.

A allwch chi gadarnhau a yw’r cyngor yn bwriadu gweithredu'r cynlluniau hyn o hyd, ac os felly, pryd disgwylir i'r cynlluniau hyn fynd yn eu blaenau?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Mae cynlluniau arafu traffig ar ein rhestr i’w gweithredu yn yr ardal hon. Caiff y rhain eu datblygu a’u gweithredu pan fydd yr arian angenrheidiol ar gael. Ar y cyfnod hwn, ni allwn gadarnhau pan fydd yr arian angenrheidiol ar gael.

Cwestiwn ategol: *Dr Ashley Wood*

Rwy’n gwerthfawrogi y bydd angen arian ar unrhyw gynllun, ond pan fo arian ar gael, a allai’r Aelod Cabinet roi gwybod am y camau gweithredu y gallai preswylwyr yn yr ardal leol eu cymryd i gynyddu blaenoriaeth unrhyw gynllun o’r fath cyn i rywun gael ei anafu gan gar sy’n goryrru?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Fel y gallwch werthfawrogi, trwy gydol y ddinas, mae gennym lawer o flaenoriaethau a rheolir y rhain gan system pwyntiau. Ond rydym hefyd yn trio cael arian trwy gytundebau Adran 106, sydd cyfraniad y datblygwr pan fo datblygiad yn yr ardal leol yn dechrau mynd yn ei flaen. Felly gallai fod yn unrhyw le yng Nghaerdydd, ac ariennir rhai o'r cynlluniau trwy'r broses honno.

Ond un o’r cynlluniau rydym yn mynd ag ef yn ei flaen fel awdurdod lleol yw edrych ar ymestyn y cynllun oriau 20mya yn y dyfodol. Ac yn amlwg mae hynny yn lleihau goryrru ar hyd llwybrau Caerdydd nad ydynt yn ffyrdd prifwythiennol.

Cwestiwn 2

Cwestiwn y Cyhoedd: *John Robert Jones*

Mae cerddwyr a phlant sy'n defnyddio Taith Taf yn cael eu peryglu gan feicwyr sy’n symud yn gyflym iawn, gan fethu ag arafu pan ydynt yn nesáu ac yn peidio â chanu eu clychau. Yn aml, maen nhw’n dod mewn grŵp mawr; mae’n frawychus iawn pan fo grŵp o’r fath yn cyrraedd yn ddistaw y tu ôl i bobl; a gwneud pethau’n waeth byth, mae beicwyr, mewn llawer o achosion, yn ei wneud yn amlwg eu bod yn ystyried bod cerddwyr yn ymyrwyr nad oes croeso iddynt ar eu llwybr.

Beth rydych yn bwriadu ei wneud i gyflawni eich dyletswydd o ofal i gerddwyr sy'n defnyddio Taith Taf ac i annog beicwyr i ymddwyn yn gwrtais ac yn ddiogel?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Gallaf gadarnhau bod swyddogion o Weithrediadau'r Ddinas wedi datblygu Cod Ymarfer i bob defnyddiwr llwybrau a rennir ym Mharciau'r Cyngor. Bydd hyn yn berthnasol i bob defnyddiwr parciau, gan gynnwys pobl sy'n cerdded, reidio beiciau a cherdded eu cŵn yng Nghaerdydd.

Diben y Cod Ymarfer yw annog pob defnyddiwr parciau i rannu llwybrau'n gyfrifol ac yn gwrtais.

Cwestiwn ategol: *John Robert Jones*

Rwyf wedi darllen eich ymateb i fy nghwestiwn, diolch. Ond mae pawb, ac eithrio beicwyr, yn cydymffurfio â'r cod hwn rydych wedi ei ddarllen. Maen nhw'n ddeddf i'w hunain. Maen nhw'n anwybyddu pawb. Cefais fi a fy ngwraig i brofiad brawychus iawn dwy wythnos yn ôl.

Yr hyn y hoffwn i'w wybod yw - beth rydych yn mynd i'w wneud amdanyn nhw?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Rwy'n meddwl bod rhaid i ni fod yn glir iawn yma: Nid yw pob beiciwr yn anghyfrifol. Mae'n debyg i yrwyr eraill, unrhyw un – mae elfen fach sy'n achosi'r problemau. Ac rwy'n meddwl ei fod yn gwbl glir bod rhaid i ni drio delio gyda'r materion hyn, sydd yr elfen fach sy'n achosi'r broblem.

Yr hyn y gallaf ei wneud yw edrych ar godi nifer o hysbysiadau ar hyd Taith Taf o bosibl, fel yr un rwy'n ei ddal. Nid wyf yn gwybod a oes gennych gopi o hyn ond os nad oes un gennych, mae croeso i chi gael un nawr. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn ei archwilio gyda swyddogion i weld a oes modd codi nifer o hysbysiadau ar hyd Taith Taf.

Ond yn amlwg, ni allwn stopio pawb a fydd o bosibl yn reidio eu beiciau yn y ffordd honno'n gorfforol. Ond gallwn drio trwy godi hysbysiadau, gobeithio yna y byddant yn cydymffurfio â'r rheolau hyn.

Yr un peth gyda gyrwyr ar y briffordd – os oes gyrwyr sydd am yrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder, os cânt eu dal, ymdrinnir â nhw, os na chânt eu dal, ni ymdrinnir â nhw.

Cwestiwn 3

Cwestiwn y Cyhoedd: *Emma Sandrey*

Mae chwyn, y math sy'n gordyfu rhwng craciau palmantau, wedi bod yn berygl yn ddiweddar i drigolion Pentwyn a Llanedern. Gwnaeth fy mam-gu bron iawn wedi cwympo'n wael o ganlyniad i chwyn yn ein hardal leol. Rydym wedi sylwi bod y chwyn wedi eu chwistrellu gyda lladdwr chwyn ers hynny. A all y Cyngor daflu goleuni ar y rhaglen ladd chwyn? H.y. pryd cafodd ei gweithredu, faint oedd cost ei gweithredu, a faint o weithwyr y Cyngor oedd yn rhan o'r gwaith?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

O ran chwyn, mae'r Cyngor yn defnyddio contractwr arbenigol y dyddiau hyn i ymgymryd â dau gylch o drin chwyn y flwyddyn mewn strydoedd preswyl a llwybrau strategol yn y ddinas, gyda lonydd cefn yn cael eu trin unwaith.

Cafodd Pentwyn ei drin am y tro cyntaf eleni ym mis Gorffennaf 2016 a chaiff ei drin am yr eildro ymhen y ddwy wythnos nesaf, yn dibynnu ar y tywydd. Mae hynny'n golygu bod angen i'r tywydd fod yn sych er mwyn gwneud y gwaith.

Cost y gwaith trin yw tua £35,000 y cylch.

Cwestiwn ategol: *Emma Sandrey*

Gaf i ofyn felly, pan fo'r gwaith yn cael ei wneud yn y ddwy wythnos nesaf, fod y chwyn yn cael eu gwaredu ar yr un amser neu'n fuan ar ôl cael eu chwistrellu?

Yn flaenorol, nid yw'r chwyn sydd wedi'u chwistrellu wedi'u gwaredu, sy'n golygu eu bod nhw'n berygl baglu o hyd yn ogystal â dolur llygaid.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Mae'n haws dweud na gwneud, mewn rhai amgylchiadau, oherwydd, yn amlwg, pan fo'r chwyn yno yng nghraciau'r palmant, nid yw bob amser yn hawdd eu gwaredu. Yr hyn rydym yn ei wneud nawr mewn llawer o ardaloedd yw digio'r chwyn allan o'r craciau, ond mae'n ymgyrch sy'n cynnwys gwaith dwylo dwys iawn. Os yw eu gwreiddiau'n ddwfn – rhywbeth fel dant y llew er enghraifft – mae'n cymryd amser hir i'w gwaredu.

Felly ni allaf addo y byddwn yn gwneud hynny, ond yn sicr ymdrinnir â'r chwyn sy'n haws eu gwaredu.

68 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Hanner Marathon Caerdydd Prifysgol Caerdydd

Rydym yn falch o groesawu cystadleuwyr a gwylwyr o ledled y byd i Hanner Marathon Caerdydd unwaith eto sy'n cael ei gynnal ar ddydd Sul 2 Hydref 2016. Rwy'n siŵr bod pobl yn ein mysg heddiw a staff y Cyngor sydd wedi bod yn hyfforddi'n galed ac sy'n bwriadu codi llawer o arian ar gyfer elusennau yn y digwyddiad hwn.

Pob lwc i chi i gyd.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Darren Williams a briododd Sophie ar 23 Medi, a dymunwn bob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

Cydnabyddiaeth a Gwobrau

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o gydnabod y digwyddiadau canlynol sydd wedi cael eu cynnal ers y cyfarfod diwethaf.

Agoriad Swyddogol Ysgol Gynradd Pontprennau Newydd
Ymunodd y Dirprwy Arglwydd Faer y Cyng. Georgina Phillips ac Ysgrifenyddes Addysg Kirsty Williams, a'r Aelod Ward Lleol, y Cynghorydd Dianne Rees â staff a gwesteion i ddathlu agoriad swyddogol Ysgol Gynradd Pontprennau ddydd Iau diwethaf.

Cwblhawyd yr ysgol gynradd newydd sbon gwerth £8m sydd â chanolbwynt ar y gymuned, a ariannwyd ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, eleni Bydd yr ysgol yn tyfu bob blwyddyn tan fis Medi 2021, pan fydd yn rhoi lle i 420 disgybl rhwng 4 a 11 oed. Mae gan y feithrinfa 48 lle cyfwerth ag amser llawn mewn sesiwn yn y bore neu sesiwn yn y prynhawn.

Gwobr Aur i Gartref Cŵn Caerdydd yng nghategori Gwasanaethau Cŵn Strae gan RSPCA Cymru
Llongyfarchiadau i'r tîm yng Nghartref Cŵn Caerdydd am dderbyn gwobr 'aur' yng nghategori Gwasanaethau Cŵn Strae cynllun Olion Traed Lles Anifeiliaid Cymunedol (CAWF) RSPCA Cymru am y drydedd flwyddyn.

Bu Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (partneriaeth rhwng Cynghorau Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg) hefyd yn llwyddiannus, gan dderbyn ôl troed efydd yng nghategori Trwyddedu Sefydliadau Anifeiliaid ac ôl troed arian yng nghategori Gwasanaethau Cŵn Strae.

Bu Uned Rheoli Argyfwng y Cyngor hefyd yn llwyddiannus gan ennill gwobr efydd yn y categori Cynllunio Rhag Rhaid.

Mae pencampwr y DU Canolfan Maendy yn anelu at ennill teitl y Byd.
Mae Uwch Hyfforddwr Ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Maindy wedi dod yn bencampwr codi pwysau'r DU Daeth Phil Carleton bencampwr codi pwysau agored y DU yn y categori 90 kilogram yn Coventry y mis diwethaf ac mae bellach yn anelu at ennill Teitl y Byd ym mis Hydref. Bydd pencampwr y DU yn cystadlu yn erbyn gwledydd o ledled y byd dan y faner *Caerdydd Actif.*

Dymunwn ni'r orau i Phil ym Mhencampwriaeth y Byd Undeb Codi Pwysau'r Byd, a gynhelir yn Arena Butts yn Coventry o fis 10 Hydref i Hydref 2016.

Diweddariad ar Splashpad

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o ymweld â Splashpad Victoria Park sydd wedi bod yn boblogaidd yn ei dymor haf cyntaf. Mae ffigurau'n dangos, ers i'r Splashpad agor ym mis Mehefin, ei fod wedi denu tua 5,950 o bobl bob wythnos o gymharu i'r cyfartaledd wythnosol o ddim ond 470 plentyn a oedd yn defnyddio'r pwll padlo iddo ei ddisodli.

Mae'r cyfanswm amcan ar gyfer tymor cyntaf y Splashpad yw 71,400 sy'n cymharu â chyfartaledd o 8,000 ymwelwyr oedd yn defnyddio'r pwll padlo bob haf.

Diweddariad ar Elusen yr Arglwydd Faer

Mae llawer o arian yn cael ei godi ar gyfer Elusen yr Arglwydd Faer, Ymchwil Canser Cymru, a diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Cynghorwyr sydd wedi bod yn rhan o godi arian a hybu Ymchwil Canser Cymru sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed eleni.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o'r cyfraniadau wedi'u derbyn ar gyfer y casgliad dillad arbennig cyn i'r cyfarfod Cyngor heddiw a diolchodd i'r gwirfoddolwyr o'r Elusen am hwyluso'r casgliad.

Dywedodd yr Arglwydd Faer ei bod hi wedi cwrdd ag Arweinwyr Cymunedol o lawer o gymunedau yng Nghaerdydd dros yr ychydig wythnosau diwethaf i sicrhau y caiff y cysylltiadau hynny eu cynnal a'u meithrin, ac mae Arweinwyr Cymunedol yn cefnogi Elusen yr Arglwydd Faer yn hael eleni.

Mae Ymchwil Canser Cymru hefyd yn falch bod y Cynghorydd Dilwar Ali a Mohammed Adul Salam wedi dewis cefnogi'r elusen yn rhan o'r Her Cerdded Wal Tsiena 13 – 21 Mai y flwyddyn nesaf.  Mae eu gwefan 'just giving' i godi arian ar waith os yw aelodau am wneud cyfraniad.

## 69 : DATGANIAD CYFRIFON 2015/16 AC ADRODDIADAU CYDYMFFURFIO BLYNYDDOL

Cafodd yr adroddiad ei gynnig gan yr Aelod Cabinet, Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Graham Hinchey, a'i eilio gan y Cynghorydd Bale. Awgrymwyd bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016; yn nodi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016, yn nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2015/16; ac yn nodi y caiff dogfennau ffurfiol eu llofnodi ar ddiwedd y cyfarfod cyn 30 Medi 2016.

Dywedodd yr Aelod Cabinet yr oedd y cyfrifon wedi bod yn destun proses graffu drylwyr ac nad oedd dim eitemau heb eu cywiro yn y datganiad cyfrifon wedi'i archwilio.  Yn ôl sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru, nid oedd dim pryderon sylweddol am yr agweddau ansoddol ar arferion cyllidebu'r Cyngor ac adroddiadau ariannol; nid oedd dim anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad; ni thrafodwyd unrhyw materion sylweddol eraill  ac ni chyfathrebwyd â rheolwyr amdanynt; dim materion eraill sy'n berthnasol i'r arolygaeth gan gynnwys y diwygiad sy'n cael ei adrodd heddiw; neu unrhyw wendidau materol yn eich rheoliadau mewnol.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i Gyfarwyddwr Adnoddau a Swyddogion am y gwaith yr oedd angen ei wneud i lunio a chwblhau'r Datganiad Cyfrifon.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer Lefaryddion Cyllid o bob Grŵp i siarad cyn cyflwyno'r eitem ar gyfer trafodaeth.

Codwyd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr ardreth cyfraniad Pensiwn cywir oedd 22.9%.
- llwyddiant datblygu economaidd yng Nghaerdydd a welir yn yr ardrethi busnes ac ardrethi Annomestig a gynyddodd o £179m yn 2014/15 i £193m yn 2015/16; a

phryderon ynghylch dosbarthu ardrethi annomestig ledled Cymru a cholli 47.6% o ardrethi yng Nghaerdydd yn 2015/16;

- lefelau o ddyled yng nghyd-destun gwariant a chymhariaeth â Chynghorau eraill;
- pryderon ynghylch methu â chyflawni arbedion manwl wedi'u cynllunio; defnydd o arian wrth gefn; a chyllideb ysgol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet a chyfeiriodd at sylwadau cadarnhaol yn adroddiadau cyrff rheoleiddiol; y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus diweddar sy'n dangos mai Caerdydd yw'r trydydd Cyngor sydd wedi gwella'r gorau yng Nghymru; a pherfformiad a phwysau rhwng popeth ond gyda chynnydd yng ngweddill ysgolion o £2m.

Mewn ymateb i gadarnhad ar y diwygiad rhodd Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 gyngor ac arweiniad i'r bobl yn y cyfarfod a dywedon nhw ei bod yn fater o amseru a bod archwilwyr wedi nodi eu bod yn *'fodlon nad yw'r materion hyn yn cael effaith materol ar y datganiadau ariannol'.*

Cynigiodd y Cynghorydd Dianne Rees fod y penderfyniad yn cael ei oedi i alluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried y pwyntiau wedi'u codi ac er gwaethaf y sicrwydd, nad yw'r archwilydd wedi cwblhau ei ystyriaeth ac felly nid oedd modd iddo gymeradwyo.

Ceisiwyd cadarnhad ar a allai'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon cyn eu hystyried, a chadarnhawyd mai 30 Medi oedd y dyddiad terfyn statudol ar gyfer cymeradwyo cyfrifon.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Dianne Rees gan y Cynghorydd Robson.

Pleidleisiwyd ar y cynnig a GWRTHODWYD y cynnig.

PENDERFYNWYD –

1. nodi'r diwygiad gan gynnwys y cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151;

2. nodi'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 (Atodlen 1) wedi'i dystio fel sy'n briodol a'i ail-dystio gan Swyddog Adran 151;

3. Cadeirydd y Cyngor i gymeradwyo, llofnodi a dyddio'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 (Atodlen 1) ar ran y Cyngor;

4. dweud wrth Swyddog Adran 151 i drefnu cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon a'r holl ofynion cysylltiedig;

5. nodi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr Caerdydd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016 (Atodlenni 3, 5 a 7);

6. nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth terfynol ar gyfer Cyngor Caerdydd (Atodlen 4);

7. nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2014/15 (Atodlen 8);

8. llofnodi'r dogfennau canlynol yn ffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod:

- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Caerdydd gan gynnwys Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol (oddi mewn i'r cyfrifon) - Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr
- Alldro Blynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Llythyron o Gynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Caerdydd, Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd
- Arweinydd y Cyngor a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Llythyr o Gynrychiolaeth ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
- Arweinydd y Cyngor a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Tystysgrif Archwilio ar gyfer Cyngor Caerdydd ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd
- Archwilydd wedi'i Benodi.

## 70 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2015/16

Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Ian Arundale, i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor a rodd drosolwg i Aelodau Etholedig o waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16.

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd ei Adroddiad Blynyddol cyntaf fel Cadeirydd y Pwyllgor ar ôl i Syr Jon Shortridge adael ym mis Mehefin 2015. Yn ogystal, ar ran y Pwyllgor, roedd y Cadeirydd am gofnodi ei ddiolchiadau i gyn-gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Marie Rosenthal a Rheolwr Archwilio a Risg, Derek King, a oedd wedi rhoi cefnogaeth werthfawr i'r Pwyllgor Archwilio.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Pwyllgor yn parhau gyda chefnogaeth Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg i herio'r Cyngor yn gadarn ac roedd yn falch o nodi'r sicrwydd a dderbyniodd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn adroddiad dilynol ei Hasesiad Corfforaethol ym mis Chwefror 2016 a'i chasgliadau bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â materion hirdymor. Fodd bynnag cydnabu'r Pwyllgor fod angen mwy o waith i ymwreiddio; cyflawni a gwneud newid graddol er mwyn cyflawni canlyniadau gwell.

Byddai'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i herio cyfarwyddiaethau yn enwedig o ran nodi a chyflawni arbedion a risgiau. Mae Adnoddau Ariannol wedi'u hychwanegu fel risg strategol at Gofrestr Risgiau'r Cyngor; ac mae Swyddog Adran 151 yn siarad ym mhob cyfarfod am y sefyllfa bresennol a'r strategaeth cyllideb sy'n mynd yn ei blaen.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Sefydliadol; Addysg - llywodraethu a chydymffurfiaeth Ysgolion; materion contract a chaffael - yn enwedig ynghylch perfformiad a materion sy'n codi o gwynion aelodau ac archwiliadau mewnol yn ymwneud â chynnal a chadw adeiladau.

Gan edrych ymlaen at 2016/17 a thu hwnt, byddai'r Pwyllgor yn ystyried yng nghyd-destun pwysau ariannol parhaol sy'n wynebu'r Cyngor a galw sy'n tyfu am wasanaethau cyhoeddus, aildrefnu gwasanaethau a modelau gwell ar gyfer darparu gwasanaethau. Ym mis Chwefror 2016, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor gynigion Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft Llywodraeth Cymru, a fydd yn ailenwi'r Pwyllgor Archwilio yn 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol'. Ystyriwyd bod hyn yn gynnig cadarnhaol i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Penderfynwyd y Cadeirydd mai barn ystyriol y Pwyllgor oedd bod gan y Cyngor reolaethau ariannol a threfniadau llywodraethu cadarn a bod risgau strategol yn cael eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd ac y byddai'r Pwyllgor, yn rhan o'i raglen waith, yn parhau i nodi meysydd y mae angen eu hadolygu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr; y Cyfarwyddwr; Swyddogion; yr Aelodau Pwyllgor a'r Aelodau Lleyg am eu cyfraniadau cadarnhaol ac adeiladol at waith y Pwyllgor.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau gan Aelodau a chodwyd y materion canlynol:

- cynnydd ar Lywodraethu a Chydymffurfiaeth Ysgolion ac adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig;
- Asedau a rhestrau'r Gwasanaeth Ieuenctid a chais am gopi o'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cyfarwyddwr Addysg wedi mynychu'r Pwyllgor a bod proses ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn ac roedd y Pwyllgor yn hapus gyda'r sicrwydd wedi'i roi.

PENDERFYNWYD – diolch i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am eu diwydrwydd a'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyn a nodi'r Adroddiad Blynyddol.

71 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG 2015/16

Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth i gyflwyno deuddegfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor a amlinellodd y gwaith a wneid gan y Pwyllgor yn 2015/16. Roedd y Cadeirydd yn falch o gyflwyno'r adroddiad ar ran y Pwyllgor, yr oedd rhai o'r aelodau gan gynnwys Aelodau Annibynnol a chynrychiolydd y Cynghorydd Sirol yn y Siambr.

Rôl y Pwyllgor oedd parhau i hybu, monitro safonau uchel o ymddygiad; cynghori'r Cyngor a Chynghorwyr ar safonau Ymddygiad a phenderfynu ar ganlyniadau cwynion yn ogystal â llunio canllawiau, polisïau a gweithdrefnau a chefnogi Aelodau a swyddogion yn eu rolau a'u cyfrifoldebau.   Nid oedd dim cwynion wedi bod am lygredd, gwrthdaro buddiannau heb eu datgan neu gamddefnyddio pwerau ym mlwyddyn ariannol ddiwethaf y Cyngor neu gan Aelodau Cyngor Cymuned

Roedd dal i fod pryderon am ymddygiad Aelodau i'w gilydd ac am ymddygiad mewn cyfarfodydd: Mae'r trothwy ar gyfer camau gweithredu ffurfiol o ran y rhain wedi'i codi gan benderfyniadau'r llys a newid yn agwedd yr Ombwdsman, felly mae hyd yn fwy yn awr yn dibynnu ar Gynghorwyr unigol a Chynghorwyr gyda'i gilydd i osod a chynnal eu safonau eu hunain a pharchu Ymrwymiad Caerdydd a thrin ei gilydd a'r swydd fel Cynghorydd gyda pharch.

Barn cadarn y Pwyllgor yw e o hyd mai Aelodau eu hunain, yn unigol a gyda'i gilydd, sy'n gyfrifol am osod a chynnal safonau uchel o ymddygiad. I raddau helaeth iawn, cyflawnir y cyfrifoldeb  hwnnw'n helaeth:

Bydd y Pwyllgor yn parhau i roi canllawiau ar gyfryngau cymdeithasol; rhan Aelodau mewn materion amddiffyn Plant ac Oedolion; a phrotocol Aelodau a fydd yn cael ei fonitro'n achlysurol a'i adolygu a'i uwchraddio yn ôl yr angen.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru yn Adroddiad Dilynol ei Hadroddiad Corfforol yn enwedig ein gwneud ein hunain yn fwy gweladwy a bod yn fwy rhagweithiol gyda dod yn gyfarwydd â gwaith Aelodau.  I'r perwyl hwn, rydym wedi ymestyn ein rhaglen o arsylwi ar gyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor ac wedi cyhoeddi ein cyfres gyntaf o friffiau ar gyfer Aelodau

I gloi, roedd y Cadeirydd am gofnodi ei ddiolchiadau i bawb sy'n cefnogi'r Pwyllgor, ac yn enwedig Marie Rosenthal ein cyn-swyddog monitro a David Marr am weithredu fel Swyddog Monitro Dros Dro; a chroesawodd y Cadeirydd Davina Fiore, y Swyddog Monitro newydd, i Gaerdydd ac edrychodd ymlaen at weithio gyda hi yn y dyfodol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau gan Aelodau a chodwyd y materion canlynol:

- Materion ynghylch ymddygiad mewn cyfarfodydd a gyda swyddogion;
- sut gall Aelodau Annibynnol rannu profiadau a phryderon gyda'r Pwyllgor;
- natur cwynion am geisiadau Cynllunio a chysondeb agwedd;
- Cod Arfer Da ar gyfer Aelodau a chyfraniad gan Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod proses ffurfiol ar waith i ymdrin â chwynion pan gânt eu derbyn.  Ymdrinnir â chwynion Aelodau sy'n ymwneud ag Aelodau trwy ddulliau eraill.  Yr Ombwdsman sy'n ymdrin â chwynion gan y cyhoedd am Aelodau ac mae'n rhoi'i ymateb

Mae'r Pwyllgor bob amser yn croesawu Aelodau sydd am arsylwi ar ei gyfarfodydd a gallai'r Aelodau Annibynnol ddymuno ystyried gyda'i gilydd sut hoffent rannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol.  Ymrwymodd y Cadeirydd i drafod gyda swyddogion.  Yn ogystal ymrwymodd y Cadeirydd i

roi ymateb ysgrifenedig ar nifer a mathau'r cwynion a dderbynnir mewn perthynas â'r broses gynllunio.

PENDERFYNWYD – diolch i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am eu gwaith i gefnogi Aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyn a nodi'r Adroddiad Blynyddol.

72 : ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2015/16

Roedd yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Lles yn falch o gyhoeddi seithfed Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16 mewn partneriaeth â'r Dirprwy Arweinydd a'r cydweithiwr Cabinet ar gyfer Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Lent. Craffwyd ar yr adroddiad Blynyddol gan y Cydbwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc a'r Gymuned ac Oedolion ar 12 Gorffennaf 2016 a'r Cabinet ar 27 Gorffennaf 2016. Fel yr Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am y Gwasanaethau Cymdeithasol, y flaenoriaeth yw'r bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt a'r bobl sydd y fwyaf agored i niwed yn y ddinas ac adlewyrchir hyn yn y pwysigrwydd a roddir i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Cabinet a'r Cyngor fel cyfanwaith.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos cydlyniad, cryfder ac effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n tyfu yng Nghaerdydd. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar y flwyddyn flaenorol yn bennaf, rydym yn gwybod fel Cyngor ein bod yn gwella ac mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ni oedd y Cyngor sydd wedi gwella'r fwyaf ledled Cymru yn 2015-16. Roedd yr Aelod Cabinet yn awyddus i drafod y materion ynghylch adnoddau a'r ffaith bod y gyfarwyddiaeth yn cefnogi mwy o bobl yng Nghaerdydd nag erioed.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i Aelodau yn y siambr a'r Cadeiryddion ac Aelodau Craffu am y gefnogaeth yn y gwaith o wella gwasanaethau a'u symud ymlaen.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau gan Aelodau a chodwyd y materion canlynol:

- cynllunio adnoddau i sicrhau y rhoddir arian digonol i'r gwasanaethau hyn a arweinir gan alwadau i osgoi gorwario; a sicrhau y defnyddir yr adnoddau hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- cydbwyso cyllidebau yng Ngwasanaethau Cymdeithasol
- pryderon ynghylch y lleihad yng nghanran presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol,
- cydnabyddiaeth bod gwasanaethau plant yn brydlon ac effeithiol yn y gwaith o gefnogi ac asesu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed;
- croesawu'r cynnydd yn ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) a chynnal hyfforddiant;
- cydnabod gwerth agwedd hyb cymorth aml-asiantaeth (MASH) ar gyfer yr unigolion hynny sy'n rhoi cymorth neu y mae angen cymorth arnynt.

Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Flynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd i gwestiynau wedi'u codi mewn perthynas â'i phortffolio yn enwedig mewn perthynas â natur ragweladwy gwasanaethau a phwysau a galwadau sydd

arnynt; nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n cynyddu; creu Canolfan Adnoddau'r Glasoed sydd i gyd wedi cael effaith sylweddol ar y gyllideb. Mae niferoedd presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol bob amser wedi bod yn uchel ac mae'n bosibl y effeithiwyd ar y ganran bresennol gan un neu ddau unigolyn; efallai plentyn ag anghenion arbenigol neu anabledd. Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o sut y cynhelir hyfforddiant CRhB gyda staff a mentrau a staff y sinema 'Vue' yn y flwyddyn ddiwethaf i godi ymwybyddiaeth. Yn gyffredinol mae nifer yr achosion y ymdrinnir â nhw gyda'r MASH wedi bod yn llwyddiannus trwy weithio yn y Cyngor a gyda asiantaethau eraill.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Lles i'r cwestiynau eraill wedi'u codi mewn perthynas â sefyllfa cyllideb blaenorol y Gwasanaethau Cymdeithasol y nodwyd ei bod mewn diffyg; cadarnhawyd bod y gyllideb mewn diffyg a phwysau galw ac y cynhelir cyfarfodydd cyllideb misol i sicrhau arbedion ar y trywydd iawn; gwelliannau i gynllunio gwasanaethu a rheoli cyllideb. Dywedodd hi fod tystiolaeth o'r AGGCC a rheolyddion ac adroddiadau eraill yn adrodd mai Caerdydd yw'r awdurdod sydd wedi gwella'r mwyaf ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i dderbyn yn ddiweddar wedi canmol dull Caerdydd, Bro Morgannwg a'r Awdurdod Iechyd o gydweithio ar Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal. Roedd yr adroddiad hwn a'r cynnydd ers mis Mawrth 2016 yn dangos sefyllfa sy'n gwella'n fawr a dylid canmol Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr, y Rheolwyr a'r staff am eu gwaith wrth gyflawni swydd anodd iawn.

PENDERFYNWYD – derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16.

## 73 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2015/16

Yn gyntaf cydnabu Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wrth gyflwyno pedwerydd adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gyfraniad gwerthfawr y Cynghorydd Lomax at y pwyllgor a'i hiwmor da a'i gyngor doeth y hiraethir amdanynt.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau, swyddogion a chyn-gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol am eu holl gefnogaeth i'r Pwyllgor a gwasanaethau i Aelodau a chroesawodd Davina Fiore, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro newydd.

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau bod gan yr holl Gynghorwyr yr wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth y mae eu hangen yn eu rôl fel Cynghorwyr Roedd y Pwyllgor yn falch bod argymhelliad y Pwyllgor na chaiff gwasanaethau i Aelodau eu lleihau yn cael ei wneud i'r Pwyllgor ac y cyflawnwyd cyllideb Gwasanaethau Aelodau Mae'r Pwyllgor wedi gofyn bod y sefyllfa hon yn cael ei chynnal yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio llawer o gyflawniadau eraill dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol, Modern.gov, dosbarthu cyfrifiaduron llechen wedi'u huwchraddio ac arolwg ar gymorth ar gyfer Aelodau.

Cyflwynwyd menter sy’n arbennig o werthfawr sef Academi Dysgu Ar-lein Cymru Gyfan sy’n galluogi Aelodau i ddysgu sgiliau newydd yn eu cartrefi eu hunain ar amser sy’n gyfleus iddynt. Yn ogystal, mae llyfryn blynyddol o gyfleoedd hyfforddi i Aelodau wedi’i gynhyrchu a’i gylchredeg i Aelodau.

Roedd y Pwyllgor yn amau’n fawr lawer o fil llywodraeth leol drafft Llywodraeth Cymru gan ei fod yn teimlo ei fod yn gwneud gweithredu llywodraeth leol yn llai democrataidd.  Er enghraifft, y cynigion i roi rhwymedigaethau cyfreithiol ar Gynghorwyr mewn meysydd penodol sy’n eu peryglu rhag peidio â gallu blaenoriaethau anghenion trigolion lleol. Dywedodd y Pwyllgor hefyd y dylai fod cydgysylltu gwell gan Lywodraeth Cymru gyda Chynghorwyr lleol yng Nghymru. Er enghraifft, ymgynghori gwell ar ddeddfwriaeth y dyfodol a mentrau newydd neu friffiau a diweddariadau.

Fel hyfforddwr aelodau mainc ôl blaenoriaeth allweddol i’r dyfodol yw i’r Pwyllgor sicrhau bod Aelodau'n derbyn yr holl wybodaeth y maen nhw ei hangen mewn ffordd hygyrch, prydlon a chynhwysfawr i sicrhau eu bod yn gallu perfformio eu rolau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau gan Aelodau a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:
Cymorth ar gyfer y technoleg Aelodau sydd bellach wedi’i ymwreiddio sydd wedi rhoi adnoddau i Aelodau ac ymdrech i fod yn Gyngor heb bapur;
a yw arian wedi'i arbed;
gweithio ar gyfathrebu gydag Aelodau am faterion IT;
angen am ymatebion a diweddariadau prydlon ar gyfer Ymholiadau Aelodau gan Aelodau a Swyddogion Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd adborth gan Aelodau. Tynnodd y Cadeirydd sylw Aelodau at fanylion yr achos busnes ar gyfer y project IT i Aelodau 'Buddsoddi i Arbed' a nodwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried yn eu Rhaglen Waith faterion mewn perthynas â'r System Ymholiadau Aelodau; amseroedd ymateb a chyfathrebu ag Aelodau.

PENDERFYNWYD – diolch i’r Cadeirydd a’r Pwyllgor am eu gwaith i gefnogi Aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyn a nodi’r Adroddiad Blynyddol.

74 : DATGANIADAU

Datganiad yr Arweinydd a Datblygu Economaidd a Phartneriaethau

Rhodd yr Arweinydd ddiweddariad ar ymweliad Dirprwyo CLILC â Brwsel; agoriad swyddogol y Tramshed; Lansio Cyfarfod Cabinet Comisiwn Twf Cynhwysol a Dinasoedd Craidd; Grŵp Cynghorol Ewropeaidd Llywodraeth Cymru; Comisiwn Twf a Chystadleurwydd a Strategaeth Pum Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Caerdydd.

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiwn am Brexit a Grŵp Cynghorol Ewropeaidd Llywodraeth Cymru fel cynrychiolydd CLILC a bu trafodaethau am Farchnad Sengl Ewropeaidd; gweithwyr mudiadau rhydd; nwyddau; cyfalaf a gwasanaethau a dywedodd y byddai'n rhoi diweddariadau i Aelodau.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y ddinas yn cynyddu ei hamrywiaeth diwylliannol trwy agor Canolfan Iaith Ffrengig yng Nghanol y Ddinas gyda gwasanaethau tebyg i'r Ganolfan Ddwyieithog yn yr Hen Lyfrgell.

Datganiad Addysg

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn cynnwys gwybodaeth ar Ganlyniadau Ysgolion; Prentisiaethau Ieuenctid, Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol (SHEP); Caerdydd 2020; Bwrdd Datblygu Addysg; Penaethiaid Newydd o 1 Medi 2016; Trafnidiaeth Ysgol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau mewn perthynas â Phenaethiaid; effaith gwyliau anawdurdodedig a deilliannau dysgwyr; canlyniadau ysgolion a chydnabyddiaeth o ysgolion arbennig; trafnidiaeth ysgol ac unrhyw newidiadau hanfodol i ysgolion arbennig; llwyddiant, pwysigrwydd ac angen am Raglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol; cyflwr ac adeiladaeth ysgolion a monitro a gweithdrefn ar gyfer adolygu rhaglen adeiladu a chynnal a chadw ac unrhyw oedi.

Datganiad Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd

Derbyniwyd datganiad yr Aelod Cabinet ar ganlyniadau Diwrnod di-Draffig Caerdydd a bu sesiwn cwestiwn ac ateb. Ymatebodd yr Aelod Cabinet i faterion wedi'u codi ynghylch ymgynghori gydag Aelodau Ward; effaith y Diwrnod di-Draffig ar ddefnyddwyr bysus a beicwyr sy'n cymudo; graddfa'r digwyddiad; effaith hirdymor y Diwrnod di-Draffig; ansawdd awyr; trefniadau ar gyfer arddangoswyr a gwerthwyr bwyd; gwneud Plas-y-Parc yn barth cerddwyr yn parhaol; rhesymeg ynghylch defnyddio Plas-y-Parc a ddim ffordd drwodd arall; adborth am y digwyddiad; a sicrhau bod hyn yn ddigwyddiad parhaol.

Datganiad Datblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol

Rhodd yr Aelod Cabinet ddatganiad a oedd yn cynnwys diweddariad ar agoriad Hyb STAR digwyddiad Roald Dahl a Her Ddarllen yr Haf.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i nifer o gwestiynau am greu'r Hyb STAR modern iawn; ehangu credydau amser ledled y ddinas a'r gwaith gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg o greu neuadd chwaraeon yn Ysgol Uwchradd Willows a phêl-droed dan do; Sefydliad Dinas Caerdydd a chae 3G yn rhywle yn Sblot.

Nifer o faterion gweithredol a logistaidd ynghylch y digwyddiad Roald Dahl llwyddiannus iawn a oedd yn heriol ar gyfer rhieni a phlant; dadansoddi a gwersi wedi'u dysgu gan bryderon rheoli torfeydd wedi'u codi i sicrhau y mwynheir pob digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Datganiad Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu

Rhodd yr Aelod Cabinet ddatganiad a oedd yn cynnwys diweddariad ar Ymgysylltu â Phobl Fyddar mewn Gwasanaethau Cyngor; Mis Hanes Pobl Dduon; Archifau Morgannwg a Holi Caerdydd.
Esboniodd yr Aelod Cabinet mewn ymateb i gwestiwn fod mentrau yn cael eu gweithredu i gael mwy o bobl mewn cymunedau y maen anodd eu cyrraedd yn cwblhau Arolwg Holi Caerdydd. Cymhariaeth â niferoedd ymateb dinasoedd craidd eraill; a datblygu a nodi cysylltiadau mewn cymunedau i gael mwy o bobl i'w gwblhau

Cydnabyddiaeth o wobrau mawreddog wedi'u rhoi i Archifau Morgannwg sy'n rhan eithriadol werthfawr o Gaerdydd.

Datganiad yr Amgylchedd

Rhodd yr Aelod Cabinet ddatganiad a oedd yn cynnwys diweddariad ar Reoli Gwastraff; Gwasanaethau Profedigaeth; Amlosgfa Draenen Pen-y-graig; Gwasanaethau Cymdogaeth; Parciau, Chwaraeon ac Awdurdod yr Harbwr; Rhentu Doeth Cymru; a rhaglen Cartrefi Twym Llywodraeth Cymru.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau am Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Heol Wedal; cefnogi mentrau ailgylchu; oriau agor y ganolfan ailgylchu ac ailddefnyddio newydd; casgliad, nifer yr eitemau y gellir eu casglu; gwaith ar y gweill ar gyfer trefnu amlder a hybu gwasanaeth casglu am ddim newydd y Cyngor; llwyddiant y sesiynau codi sbwriel cymunedol. Cododd Aelodau bryderon am gywirdeb cynnig canolfan ailgylchu/ailddefnyddio

Datganiad Iechyd, Tai a Lles

Rhodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar welliant cyffredinol sylweddol o ran Perfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol; arwyddion gobeithiol newid o gydbwysedd o ofalu am bobl Hŷn; partneriaethau Cydweithredol; cynnal sesiynau ymwybyddiaeth o Ddinas sy'n Ystyriol o Ddementia; Materion Tai; Diwygio Lles; ac ymweliadau Aelodau â'r Tŷ Doeth; ffoaduriaid Syriaidd.
Nid oedd dim cwestiynau am y datganiad.

Datganiad Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad

Rhodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar eiddo gweithredol; TGCh; Rhaglen Rheolwyr Caerdydd – Cam 2; tîm Caffael C2C wedi'i enwebu am Wobr; y Cyflog Byw; ymgysylltu â chyflogeion a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau am arolwg y gyflogeion ac ymgysylltu â staff ysgol; cyfraddau ymateb; sioeau teithiol y Prif Weithredwr; rhan Aelodau yn 'ymarfer yn ôl i'r llawr'; cynnydd ar leihau absenoldeb Salwch DPPau. Ymrwymodd yr Aelod Cabinet i ymchwilio i faterion ynghylch trosglwyddo data o C2C i adrannau eraill y cyngor.

Y Dirprwy Arweinydd a Datganiad y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd

Rhodd y Dirprwy Arweinydd ddiweddariad ar welliant mewn perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal; partneriaethau ar y cyd a datblygiadau eraill ym MASH; strategaethau ataliol a Gweithio Hyblyg a Symudol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiwn ar gynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a allai fod yn perthyn i frodyr/chwiorydd; ymyriadau a strategaethau cymorth cynnar.

75 : HYSBYSIAD CYNNIG

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Carter sydd wedi'i eilio gan y Cynghorydd Clark, wedi'i gyflwyno a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn pryderu'n fawr am gyflwr ofnadwy arwynebau ffyrdd a phalmantau Caerdydd, ac yn nodi bod y problemau hyn yn effeithio ar rannau dinasol a gwledig o'r ddinas.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi i'r weinyddiaeth flaenorol a arweiniwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol gyflwyno Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 3 blynedd gwerth £20 miliwn yn 2012, gan roi wyneb newydd ar ffyrdd a phalmantau ledled y ddinas. Mewn cyferbyniad, cynhwysodd cyllideb 2015/16 tua £8 miliwn ar gyfer gwelliannau priffyrdd dros y 3 blynedd nesaf, ond roedd toriadau o ran lanhau strydoedd, gwaredu chwyn a thorri glaswellt, a danseiliodd seilwaith ein dinas.

Mae'r Cyngor yn nodi erthygl South Wales Echo dyddiedig 4 Awst 2016 a ddatgelodd restr fer o ffyrdd i gael eu hatgyweirio'r flwyddyn hon, 'gan flaenoriaethu'r gwaith i atgyweirio'r priffyrdd a rhoi wyneb newydd arnynt yn ôl yr angen.'

Mae'r Cyngor hwn felly yn gofyn i'r Cabinet ddod â chynllun seilwaith cadarn gerbron yng nghyllideb y flwyddyn nesaf i godi safon ffyrdd y ddinas fel y byddant yn cyd-fynd â safon dinas ryngwladol fodern.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod un diwygiad i Gynnig 1 wedi'i gynnig gan y Cynghorydd McEvoy a'i eilio gan y Cynghorydd Marshall.

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

Llinell 1 yr 2il baragraff rhoi " – *Coalisiwn Plaid Cymru"* ar ôl Democrat Rhyddfrydol a dileu *"a arweiniwyd gan"*

<u>Byddai'r Hysbysiad o Gynnig fel y Diwygiwyd yn dweud:</u>

Mae'r Cyngor hwn yn pryderu'n fawr am gyflwr ofnadwy arwynebau ffyrdd a phalmantau Caerdydd, ac yn nodi bod y problemau hyn yn effeithio ar rannau dinasol a gwledig o'r ddinas.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi i weinyddiaeth flaenorol Coalisiwn Plaid Cymru-Ddemocratiaid Rhyddfrydol gyflwyno Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 3 blynedd gwerth £20 miliwn yn 2012, gan roi wyneb newydd ar ffyrdd a phalmantau ledled y ddinas. Mewn cyferbyniad, cynhwysodd cyllideb 2015/16 tua £8 miliwn ar gyfer gwelliannau priffyrdd dros y 3 blynedd nesaf, ond roedd toriadau o ran glanhau strydoedd, gwaredu chwyn a thorri glaswellt, a danseiliodd seilwaith ein dinas.

Mae'r Cyngor yn nodi erthygl South Wales Echo dyddiedig 4 Awst 2016 a ddatgelodd restr fer o ffyrdd i gael eu hatgyweirio'r flwyddyn hon, gyda rhai o wardiau ddim yn derbyn unrhyw waith atgyweirio o gwbl.

Mae’r Cyngor hwn felly yn gofyn i’r Cabinet ddod â chynllun seilwaith cadarn gerbron yng nghyllideb y flwyddyn nesaf i godi safon ffyrdd y ddinas fel y byddant yn cyd-fynd â safon dinas ryngwladol fodern.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod un diwygiad i’r Cynnig wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Mitchell a’i eilio gan y Cynghorydd Knight

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

Dileu paragraff 1 a 2 a rhoi’r canlynol yn eu lle:

*Mae’r Cyngor hwn yn nodi y cynigiwyd Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 3 blynedd gwerth £20 miliwn yn 2012 a oedd yn cynnwys £15M gan y Cynulliad Llafur yn rhan o'i raglen ariannu Menter Benthyca Llywodraeth Leol a'r swm hwn oedd mwyafrif yr arian a oedd ar gael ar gyfer 2012 i 2015 ac yn ôl yr hwn roedd rhaid i’r Cyngor gynnal lefelau parhaus o fuddsoddi dros y blynyddoedd hynny.*

Ychwanegu paragraff 2 newydd

*Mae’r Cyngor hwn yn nodi y gweithredwyd 527 rhaglen ail-wynebu gan y blaid Llafur sy’n gweinyddu ar hyn o bryd o’i gymharu â 215 pan oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gweinyddu.*

Diwygio paragraff 3 trwy ddileu ‘gyda rhai wardiau heb gael wynebau newydd ar ffyrdd o gwbl' a rhoi *'blaenoriaethu gwaith i atgyweirio priffyrdd a rhoi wynebau newydd arnynt yn ôl yr angen.'* yn ei le.

Ychwanegu paragraff 4 newydd:

*Mae'r Cyngor yn nodi dull y Gwasanaethau Cymdogaeth wedi’i ddatblygu gan y weinyddiaeth hon a'r arian ychwanegol wedi'i fuddsoddi yng ngwaith i lanhau strydoedd, draeniau priffyrdd a gwasanaethau gorfodi fel:*

*Refeniw o £220 miliwn ar gyfer timau glanhau strydoedd ychwanegol ar gyfer wardiau mewnol y ddinas*
*Refeniw o £75 miliwn i osod gwedd ychwanegol i wacau gylïau;*
*Cyfalaf o £65 miliwn ar gyfer caffael peiriant golchi stryd newydd ar gyfer canol y ddinas;*
*£100 miliwn i greu Tîm Gorfodi newydd*

Diwygio'r paragraff 4 gwreiddiol. Dileu popeth ar ôl Mae'r Cyngor hwn felly yn gofyn i'r Cabinet ... a rhoi *'barhau i wella ein priffyrdd er gwaethaf y toriadau llym cyfredol gan Lywodraeth Geidwadol y DU'* yn ei le.

Byddai'r Hysbysiad o Gynnig fel y Diwygiwyd yn dweud:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y cynigiwyd Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 3 blynedd gwerth £20 miliwn yn 2012 a oedd yn cynnwys £15M gan y Cynulliad Llafur yn rhan o'i raglen ariannu Menter Benthyca Llywodraeth Leol a'r swm hwn oedd mwyafrif yr arian a oedd ar gael ar gyfer 2012 i 2015 ac yn ôl yr hwn roedd rhaid i'r Cyngor gynnal lefelau parhaus o fuddsoddi dros y blynyddoedd hynny.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gweithredwyd 527 rhaglen ail-wynebu gan y blaid Llafur sy'n gweinyddu ar hyn o bryd o'i gymharu â 215 pan oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gweinyddu.

Mae'r Cyngor yn nodi erthygl South Wales Echo dyddiedig 4 Awst 2016 a ddatgelodd restr fer o ffyrdd i gael eu hatgyweirio'r flwyddyn hon, 'gan flaenoriaethu'r gwaith i atgyweirio'r priffyrdd a rhoi wyneb newydd arnynt yn ôl yr angen.'

Mae'r Cyngor yn nodi dull y Gwasanaethau Cymdogaeth wedi'i ddatblygu gan y weinyddiaeth hon a'r arian ychwanegol wedi'i fuddsoddi yng ngwaith i lanhau strydoedd, draeniau priffyrdd a gwasanaethau gorfodi fel:

Refeniw o £220 miliwn ar gyfer timau glanhau strydoedd ychwanegol ar gyfer wardiau mewnol y ddinas:
Refeniw o £75 miliwn i osod gwedd ychwanegol i wacau gylïau;
Cyfalaf o £65 miliwn ar gyfer caffael peiriant golchi stryd newydd ar gyfer canol y ddinas;
£100 miliwn i greu Tîm Gorfodi newydd

Mae'r Cyngor hwn felly yn gofyn i'r Cabinet barhau i wella ein priffyrdd er gwaethaf y toriadau llym cyfredol gan Lywodraeth Geidwadol y DU.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Carter i grynhoi. Wrth grynhoi dywedodd y Cynghorydd Carter ei fod yn derbyn diwygiad Plaid Cymru fel y cynigiwyd.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer i symud i'r bleidlais.

Bu'r bleidlais ar Ddiwygiad 2 a gynigiwyd gan y Cynghorydd Mitchell.

ENILLWYD y bleidlais

Rhodd y Cynghorydd Mitchell yr hawl i ateb cyn pleidleisiwyd ar yr Hysbysiad o Gynnig.

DERBYNIWYD y Cynnig fel a ganlyn:

Mae’r Cyngor hwn yn nodi y cynigiwyd Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 3 blynedd gwerth £20 miliwn yn 2012 a oedd yn cynnwys £15M gan y Cynulliad Llafur yn rhan o'i raglen ariannu Menter Benthyca Llywodraeth Leol a'r swm hwn oedd mwyafrif yr arian a oedd ar gael ar gyfer 2012 i 2015 ac yn ôl yr hwn roedd rhaid i’r Cyngor gynnal lefelau parhaus o fuddsoddi dros y blynyddoedd hynny.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi y gweithredwyd 527 rhaglen ail-wynebu gan y blaid Llafur sy’n gweinyddu ar hyn o bryd o’i gymharu â 215 pan oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gweinyddu.

Mae'r Cyngor yn nodi erthygl South Wales Echo dyddiedig 4 Awst 2016 a ddatgelodd restr fer o ffyrdd i gael eu hatgyweirio'r flwyddyn hon, ‘gan flaenoriaethu‘r gwaith i atgyweirio’r priffyrdd a rhoi wyneb newydd arnynt yn ôl yr angen.’

Mae'r Cyngor yn nodi dull y Gwasanaethau Cymdogaeth wedi’i ddatblygu gan yr weinyddiaeth hon a'r arian ychwanegol wedi'i fuddsoddi yng ngwaith i lanhau strydoedd, draeniau priffyrdd a gwasanaethau gorfodi fel:

Refeniw o £220 miliwn ar gyfer timau glanhau strydoedd ychwanegol ar gyfer wardiau mewnol y ddinas:
Refeniw o £75 miliwn i osod gwedd ychwanegol i wacau gylïau;
Cyfalaf o £65 miliwn ar gyfer caffael peiriant golchi stryd newydd ar gyfer canol y ddinas;
£100 miliwn i greu Tîm Gorfodi newydd

Mae’r Cyngor hwn felly yn gofyn i’r Cabinet barhau i wella ein priffyrdd er gwaethaf y toriadau llym cyfredol gan Llywodraeth Geidwadol y DU.

76 : CWESTIYNAU LLAFAR

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Rea

Nodwch fanylion (lleoliad, cyfleusterau, ayyb.) canolfan ailgylchu gwastraff y cartref newydd wedi’i haddo a fydd yn gwasanaethu gogledd a chanol y ddinas.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Diolch am eich cwestiwn, y Cynghorydd Rea. Llongyfarchiadau ar gael eich ethol. A gobeithio y byddwch yn mwynhau eich saith mis yn y swydd.

Mae’r Cyngor yn cynnig dwy ganolfan ailgylchu yn Bessemer Close a Ffordd Lamby. Bydd y cyfleusterau modern hyn yn cefnogi’r ddinas gyfan.
Yn ogystal, nododd yr adroddiad blaenorol i’r Cabinet ym mis Hydref 2015 yn glir ein strategaeth a’n hymrwymiadau i gynyddu ailgylchu ac ailddefnyddio eitemau'r cartref yng Nghaerdydd ar sail dair prif elfen:

- Cynnig gwasanaeth casglu am ddim ar gyfer eitemau mwy'r cartref y gellir eu hailgylchu a’u hailddefnyddio - a bydd hyn yn dechrau ym mis Tachwedd;

- Allfa ailddefnyddio lle y gall trigolion fynd â'u heitemau amldro neu ddewis prynu eitemau amldro. Mae gwaith ar y gweill i geisio partner ailddefnyddio cryf i sicrhau'r cyfleuster ailddefnyddio. Nid yw lleoliad y cyfleuster hwn wedi'i bennu eto; a
- Ffordd Lamby newydd. I sicrhau bod y Cabinet yn cyflawni ei ymrwymiadau ynghylch cyfleusterau ailddefnyddio a CAGC yn llawn, bod y safle ar Heol Wedal yn aros ar agor tan fod cyfleuster ailddefnyddio addas ar waith gan fod darpariaeth amgen addas ar gyfer trigolion yn hanfodol.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Rea

A allwch chi gadarnhau a fydd gan y ganolfan newydd yr holl gyfleusterau a gynigir gan Heol Wedal ar hyn o bryd a'r cyfleusterau ailddefnyddio ac ailgylchu ychwanegol, neu ai canolfan ailddefnyddio ac ailgylchu fydd hi yn unig?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Y naill un nai'r llall.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Cowan

Dywedoch i chi amlinellu eich strategaeth yn 2015 – ac yn amlwg mae'n cymryd amser i gael safle, gwneud arolygon, a gwneud cais am ganiatâd cynllunio – felly faint o safleoedd rydych wedi ymweld â nhw a ble mae nhw?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Nid wyf wedi ymweld â dim safleoedd. Rwy'n meddwl bod angen i fi dreulio fy amser yn gwneud pethau eraill. Mae swyddogion ar gael i wneud y math hynny o bethau ar fy rhan – dyna eu swydd nhw. Unwaith y maen nhw wedi dod o hyd i safleoedd posibl, yn fwy na thebyg byddaf yn mynd i edrych arnynt.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Hudson

Pa fath o strategaeth sydd ar waith cyn i CAGC Heol Wedal gau a sut mae canolfan ailddefnyddio/ailgylchu'n berthnasol i hyn?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire
Byddwn yn eich cyfeirio at yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol gan y Cyng. Rea a fy natganiad i Gyngor.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Hudson

Pa meini prawf a gaiff eu defnyddio ar gyfer ansawdd nwyddau pan fyddant yn casglu pethau? Gallai rhywbeth rwyf yn meddwl ei fod yn neis fod yn ddiddefnydd i rywun arall. A hefyd, pam na ymgynghorwyd â Chynghorwyr ar hyn?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Yr ateb i'ch cwestiwn cyntaf yw – Nid oes syniad gyda fi. Ni feddyliais y byddech yn disgwyl i mi wybod am safonau. Rwy'n dibynnu ar bobl eraill i benderfynu ar yr hyn sy'n eitem amldro. Mae gennym yr holl grwpiau amrywiol hyn – mae pobl yn hoffi Sefydliad y Galon, mae pobl fel hynny – maen nhw'n gwybod beth sy'n addas a beth sydd ddim yn addas. Nid yw rhywbeth fel hynny'n rhan o fy rôl i.

O ran pam na ymgynghorwyd â nhw: oherwydd penderfyniad y Cabinet oedd e ac aeth trwy'r broses iawn a chraffwyd arno.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Rea

Yn fy marn i roedd eich ateb blaenorol yn gamarweiniol. Felly, a allech chi fanylu ar yr union wasanaethau a fydd ar gael yn y ganolfan newydd, sy'n cael ei chynnig ar gyfer gogledd a chanol y ddinas a sut maen nhw'n cymharu â'r gwasanaethau cyfredol yn Heol Wedal?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Nid wyf yn siŵr i chi glywed fy ateb y tro cyntaf i'ch cwestiwn cyntaf. Canolfan ailddefnyddio y bydd hi.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Gordon

A yw'r Swyddogion Gorfodi Sifil yn gweithio tuag at darged o ran y nifer o ddirwyon parcio i'w cyflwyno mewn cyfnod penodol?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel
Nid oes dim targedau wedi'u gosod ar gyfer y Swyddogion Gorfodi Sifil.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Gordon

Beth yw eu dangosydd canlyniadau? Beth yw dangosydd canlyniadau llwyddiant Swyddogion Gorfodi Sifil?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Swydd y Swyddogion Gorfodi Sifil yw patrolio'r strydoedd ac os byddant yn dod o hyd i unrhyw beth sy'n anghyfreithlon, er enghraifft, byddant yn rhoi tocyn i geir.

Os gallaf roi enghraifft i chi, ym mis Ebrill i fis Gorffennaf:
Ebrill: 5306
Mai: 5122
Mehefin: 4361
Gorffennaf: 5167

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Bridges

Rwy'n falch nad oes dim targed wedi'i osod ar gyfer Swyddogion Gorfodi Sifil. Rwy'n meddwl bod hynny'n fwy na thebyg yn ffordd ddrwg o gadw ein strydoedd yn ddiogel a pharcio cyfreithlon.

Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i'r Aelod Cabinet a fyddai efallai yn ystyried cyflwyno targed a fyddai'n sicrhau bod Swyddogion Gorfodi Sifil yn gweithio mewn mwy o rannau ledled y ddinas fel y byddant yn ymweld â rhai wardiau, fel fy un fi, lle nad oes llawer o orfodi o gwbl? Yn hytrach na, fel y mae'n ymddangos y mae hi, wario llawer o amser yng nghanol y ddinas, tra gadewir y maestrefi gyda gormod o geir wedi'u parcio.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Mae angen i ni gadw traffig ardaloedd canol y ddinas, lle y mae'r tagfeydd mwyaf, yn llifo. Mewn wardiau fel efallai eich un chi, fy un fi, a llawer o wardiau eraill, cyfrifoldeb Aelodau yw adrodd amdani. Os byddwch yn adrodd amdani, bydd Swyddogion Gorfodi Sifil yn dod i ymchwilio i'r mater. Os na fyddwch yn adrodd amdani, yn amlwg, mae'n bosibl na fyddant yn ystyried ardal y ward honno yn brif flaenoriaeth.

Fel Aelodau Etholedig, bydd llawer ohonon ni yn adrodd amdani heb oedi, ac yn sicr wedi gweld Swyddogion Gorfodi Sifil yn ymchwilio i'r mater. Ond pan ydych yn sôn am gydraddoldeb, mae pob ward - pob rhan o'r ddinas – yn cael ei drin yn yr un ffordd.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Rea

Pa drafodaethau wedi'u cynnal yn ddiweddar yn cynnwys y cyngor ynghylch cynlluniau i adfer y Sinema Gaiety yn Heol y Plwca i'w defnyddio eto?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bale

Mae hyn wedi bod yn broblem hirdymor sy'n dyddio'n ôl i ddwy weinyddiaeth flaenorol y Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae Cynghorwyr Llafur dros Blasnewydd wedi ymgyrchu'n gyson ar y broblem hon dros flynyddoedd diweddar, yn enwedig o ran yr angen i ymdrin â natur anniben y safle, problemau gyda gwastraff ar y tir, a phroblemau parhaol gyda graffiti yn y lleoliad hwn.

Mae'r Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at berchennog yr adeilad yn yr ychydig wythnosau diwethaf – yn absenoldeb cais cynllunio am ddymchwel – i ofyn iddo dacluso'r tir, ail-baentio wyneb yr adeilad a diogelu'r safle yn wirfoddol.

Dywedodd cynrychiolydd y safle wrth y Cyngor ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater, ond nad oes dim wedi'i wneud hyd yn hyn. O ganlyniad, mae Hysbysiad Adran 215 wedi'i gyhoeddi sy'n gofyn i'r perchennog ymgymryd â'r gwaith gwella hwn. Mae gan y perchennog yr hawl i apelio yn erbyn yr Hysbysiad i'r Arolygiaeth Gynllunio.
Os na wneir apêl, bydd yr Hysbysiad mewn grym o 11 Tachwedd a bydd y cyfnod i gydymffurfio am un mis o'r dyddiad hwn. Os cyflwynir apêl, yna ni phenderfynir ar y mater nes y derbynnir penderfyniad yr Arolygydd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chynghorwyr Llafur yn yr ardal, ac wrth gwrs gyda chithau, i sicrhau rydym yn mynd i'r afael â'r materion hynny.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Rea

Mae preswylwyr Plasnewydd wedi cael llond bol o olwg ofnadwy ein hardal – mae'n gwaethygu ein hardal fel cyfanwaith ac yn atal Heol y Plwca rhag bod yr Heol y gallai fod.
A fyddwch yn rhoi sicrwydd i mi y bydd y Cyngor yn parhau i ganlyn ar hyn a gwneud popeth y gall i sicrhau y caiff y safle ei adfer fel y bydd mewn cyflwr da i'r gymuned ei ddefnyddio?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bale

Wel rwyf yn gobeithio o fy ateb blaenorol y byddwch yn gwerthfawrogi ein bod ni eisoes wedi gwneud llawer o waith gyda'r Cynghorwyr presennol ac y byddwn yn parhau i wneud felly yn y dyfodol.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorwyr Sirol McGarry

A fydd yr Arweinydd yn cadarnhau bod yr adeilad hwn wedi bod mewn cyflwr ofnadwy ers amser maeth, gan gynnwys yr wyth blynedd roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwasanaethu Plasnewydd a bod y  Cynghorwyr Llafur Lleol, cyn gynted ag y cymerodd yr weinyddiaeth hon  yr awenau yn 2012, wedi gweithio'n galed, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r adran gynllunio, i roi pwysau ar berchenogion preifat i wella'r safle?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bale

Rwy'n cytuno'n llwyr gyda chi ar hynny, ac rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae Cynghorwyr Llafur Lleol wedi bod yn ei wneud ar y mater hwn.

<u>Cwestiwn:</u> Y Cynghorydd Sirol Hudson

Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ar Heol Wedal?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Byddwn yn eich cyfeirio at yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol gan y Cynghorydd Rea a fy natganiad i Gyngor.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Hudson

Mae darpariaeth arall wedi'i thrafod ar gyfer ailgylchu. A allwch chi ymhelaethu ar hyn, os gwelwch yn dda? Ac a fydd Cynghorwyr yn cyfrannu at unrhyw benderfyniadau a wneir?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Meddyliais fy mod eisoes wedi dweud yn fy sylwadau blaenorol yn fy natganiad amgylcheddol ac yn fy ateb i gwestiwn y Cynghorydd Rea yn gynharach am y ddarpariaeth ailgylchu. Rydym yn trafod y posibilrwydd o gasglu eitemau amldro/y

gellir eu hailgylchu yn uniongyrchol o aelwydydd o fis Tachwedd, er mwyn cynnig gwasanaeth nad ydynt yn ei gael am ddim ar hyn o bryd. Dyna beth rydym yn trio ei wneud.

Rydym hefyd yn trafod y posibilrwydd o adeiladu canolfan ailgylchu yn rhywle yn y ddinas hefyd. Ond gwaith sydd ar y gweill yw hwnnw.

Rwyf eisoes wedi rhoi'r holl atebion hyn. Nid wyf yn siŵr beth allaf ei ychwanegu.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Boyle

Nid wyf yn meddwl rydych wedi rhoi'r holl atebion. Ym mis Hydref, cyfeiriodd adroddiad y Cabinet y cyfeirioch ato'n gynharach heno at ganolfan ailddefnyddio. Dywedodd yr adroddiad a ddaeth i ni - eich datganiad amgylcheddol tri awr yn ôl - gyfleuster ailgylchu/ailddefnyddio yn y ddinas. Deng munud yn ôl, mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Rea, roedd wedi dychwelyd at ganolfan ailddefnyddio'n unig. Beth mae'n mynd i fod mewn deng munud?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Mewn deng munud, hoffwn i fynd adref.

Cwestiwn: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

A allai'r Aelod Cabinet roi dadansoddiad o'r cyfleusterau chwaraeon yng Nghaerdydd y gall y bobl sy'n anabl yn gorfforol eu defnyddio?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Rwy'n falch ei fod wedi gofyn y cwestiwn hwn. Mae'n rhoi'r cyfle i mi siarad am Wobr Efydd Insport y cefais gan Chwaraeon Anabledd Cymru yn gynharach y mis hwn, a gydnabu rôl y Cyngor yn y gwaith o gynyddu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol ar gyfer chwaraeon anabledd yn y ddinas – digwyddiad y cymerodd 700 o athletwyr ran ynddo ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rydym yn cefnogi dros 50 o weithgareddau chwaraeon anabledd ac rydym bob amser yn edrych am ffyrdd y gallwn gael mwy o bobl anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon.
Mae holl Ganolfannau Hamdden y Cyngor yn cynnig lefelau amrywiol o fynediad cynhwysol a byddwn yn tynnu sylw Aelodau at yr Hyb STAR newydd, sy'n cynnig cyfleusterau newid sy'n gwbl hygyrch gyda lifft, yn ogystal â pod pwll sy'n galluogi mynediad i'r pwll.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

Byddai'n dda pe gallech amlinellu'n ysgrifenedig beth yw'r 50 o weithgareddau a ble maen nhw. Yr hyn rwy'n edrych amdano yw archwiliad ledled y ddinas. Felly os gallai swyddogion weithredu hynny, yna byddai diddordeb mawr gennyf mewn gweld yr hyn rydym yn ei wneud yng Nghaerdydd, yr hyn sy'n digwydd yn Rhondda Cynon

Taf; yr hyn sy’n digwydd yn y Fro; a’r hyn y gellir ei wneud i wneud pethau’n fwy hygyrch.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Gallaf gael yr wybodaeth i chi, Cynghorydd. Ond pe bawn ei ddarllen yn awr, byddwn yn mynd dros un munud. Felly rwy’n hapus i gael yr wybodaeth honno i chi. Dim problem.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Gordon

Faint y mae’r Cyngor wedi’i dderbyn ar gyfer y digwyddiad un mis yng Ngerddi Sophia?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Rwy’n tybio mai'r Syrcas Bwyd Stryd rydych yn cyfeirio ati. Y ffi a dderbyniwyd gan drefnydd y digwyddiad oedd £14,100 gyda TAW yn ychwaneg.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Gordon

Ni allaf ddeall sut y caniateir i barc gael ei adael mewn cyflwr o'r math. Mae’r Syrcas Bwyd Stryd wedi bod yno am chwe wythnos. Mae cerbydau ar y safle o hyd, mae’r llawr yn llawn mwd ac rwy’n gobeithio na fydd yn cael ei bond yn ôl.
Rwyf am ddweud i’r ‘Partïon Gwych’ neu’r ‘Partïon Gorau Erioed’ dalu £22,000 i Gyngor Caerdydd er mwyn defnyddio Gerddi Sophia ar gyfer y digwyddiad. Felly pam mae Syrcas Bwyd Stryd wedi talu £14,000 yn unig am amser hirach?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Yr hyn y mae rhaid i ni ystyried gyda’r holl fathau o ddigwyddiadau hyn yw eu bod yn dod â buddion economaidd i’r ddinas a hefyd waith i bobl yn y ddinas sy’n gweithio i’r cwmnïau hyn. Arddangosodd 40 o fasnachwyr bwyd gwahanol dros chwe wythnos, gan gefnogi'r sefyllfa busnes bwyd annibynnol. Apeliodd y digwyddiad at bobl o bob oedran a phob rhan o'r gymuned. Rydym wedi cael ar ddeall gan drefnwyr y digwyddiad i 64,000 o bobl ddod i’r digwyddiad dros chwe wythnos, felly roedd yn llwyddiant mawr.

O ran cyflwr ac ansawdd y tir, mae yn rhan o dir a gedwir ar gyfer y math hwnnw o bethau, ac rwyf wedi cael ar ddeall gan y Swyddog dan sylw sy'n gyfrifol am hyn y bydd gwaith atgyweirio'n dechrau. Yn amlwg byddant yn ei wirio o ran y bond ac a fydd yn cael ei atal neu beidio unwaith y maen nhw wedi diwygio ac wedi archwilio'r safle yn ôl yr angen.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Rea

A yw’r Cyngor yn fodlon na fydd y partner newydd wedi'i ddewis ar gyfer gwasanaethau hamdden yn arwain at golli neu ddifenwi gwasanaethau ar gyfer dinasyddion Caerdydd?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Ydy.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Rea

Rwy'n falch eich bod mor hyderus.

Yn ddiweddar, adroddodd Private Eye am gofnod Greenwich Leisure. Roedd hyn yn cynnwys cadw pwll nofio ar agor yn Swindon am dair wythnos ar ôl cael rhybudd am faterion iechyd a achosodd nifer o achosion o'r haint crypto; 11 o oedolion a 4 plentyn yn Buckinghamshire wedi gorfod mynd i'r ysbyty ar ôl cael eu heffeithio gan gynnwys cemegol y dŵr, a fethodd y cwmni â'i brofi.

Ydych chi'n dal i feddwl bod Greenwich Leisure yn ddewis da i redeg ein pyllau nofio.

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Rhaid i mi chwerthin gan fod sefyllfa eich plaid wedi newid ers 27 Gorffennaf oherwydd dywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar 27 Gorffennaf "mae fy ngrŵp yn cytuno'n eang â'r cynnig hwn gan na ellir cynnal y cymhorthdal."

Os yw'n hynny'n rhoi sicrwydd i chi, iawn, ond nid ydym yn preifateiddio ein canolfannau hamdden yn y ffordd rydych yn sôn amdani. Rydym yn mynd yn bartneriaid; rydym wedi creu swyddogaeth cleientiaid cadarn; byddwn yn cael aelodau o'r Cyngor ar y Bwrdd Cyswllt Projectau, a fydd yn penderfynu ar raglennu; mae'r staff yn cael eu trosglwyddo ar yr un telerau ac amodau sydd ganddynt yn awr; ac ni fydd unrhyw ganolfannau hamdden yn cau oni bai bod y Cyngor yn rhoi caniatâd i'r canolfannau hamdden hynny gael eu cau, a dan fy ngwarchodaeth ni fyddwn yn rhoi caniatâd i gau canolfan hamdden.
Rwy'n meddwl ei fod yn eironig eich bod chi, sydd o'r blaid a dorrodd gymaint o arian o'n cyllideb, yn cwyno amdanon ni'n amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Graham Thomas

Gan fod canolfannau hamdden mor bwysig i iechyd a lles trigolion, yn amlwg, rwyf am ddeall na fydd y newid hwn yn arwain at lai o bobl yn cymryd rhan, ac mewn gwirionedd, a fydd yn arwain at fwy o bobl yn cymryd rhan?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Gadewch i mi dweud eto, pe na fyddem yn y sefyllfa ariannol bresennol, ni fyddai hyn yn rhywbeth y byddem yn edrych arno. Ac rwyf bob amser wedi dweud hynny. Ond y ffeithiau yw ein bod yn y sefyllfa rydym ynddi, a'r bwriad yw cadw canolfannau hamdden ar agor a thrio gwneud i'r canolfannau hynny ffynnu a chael mwy a mwy o bobl yn mynd iddynt.

Nid wyf yn mynd i aros yma a dweud wrthych "rydym yn mynd i gynyddu nifer y pobl sy'n cymryd rhan" ond dyna beth yw'r cynllun, dyna beth rydym yn gobeithio ei wneud.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Hudson

A allwch chi  amlinellu'r gwariant a ddisgwylir ar gyfer y project adfywio Caerphilly Road cyfan?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Y gwariant ar gyfer cynllun adfywio Canolfan Siopa Llwynbedw yw tua £206,000 a ariennir gan ran o raglen Cynllun Adnewyddu Cymdogaethau'r Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weithredu ar amser ac o fewn cyllideb a disgwylir iddo gael ei gwblhau ar 31 Hydref 2016.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Hudson

Meddyliais ei fod yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru A allech chi amlinellu a yw hyn yn wir neu beidio a beth yw mewnbwn Llywodraeth Cymru?

Ond mae angen i mi wybod a fydd unrhyw gosbau os bydd y project yn gor-redeg.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Mae'r cwestiwn rydych wedi'i ofyn yn ymwneud â phroject adfywio Caerphilly Road. Ni ofynnoch chi'r cwestiwn am y cynllun gwella trafnidiaeth, sy'n digwydd yn Heathwood Road i Maes y Coed Road, sy'n cael ei ariannu gan gynllun trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Felly y tro nesaf efallai y mae angen i chi ofyn y cwestiwn cywir.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Bowden

Deallais o e-byst diweddar pan oeddwn yn edrych yn ôl ar wariant ar yr holl gynlluniau sydd wedi bod yn cael eu gweithredu yn y Mynydd Bychan ac o'i gwmpas. Deallais fod y gyllideb sydd gennym gan Lywodraeth Cymru wedi'i thorri i £150,000 gan na allem wneud yr holl gynllun dan Adnewyddu Cymdogaethau a bod yn rhaid i rhan ohono ddod allan o'r gwaith Caerphilly Road. A allech chi gadarnhau'r pwynt hwnnw i mi neu efallai ysgrifennu ataf i roi diweddariad i mi amdano?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Yn sicr, byddaf yn fodlon ei roi mewn du a gwyn i chi.

Cwestiwn: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

A fyddai'r Aelod Cabinet yn rhoi diweddariad ar yr hyn sydd wedi ei wneud dros y 12 mis diwethaf i greu ffyrdd mwy diogel i'r ysgol?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Yn glir, mae diogelwch plant yn eithriadol o bwysig a dangosir hyn wrth flaenoriaethu'r projectau rydym wedi'u cyflawni.

Yn 2015/16, ymrwymon ni i greu Llwybrau Diogel yn  y projectau Cymunedol gwerth £334,000.

O ganlyniad i setliad gan Lywodraeth Cymru Llafur yn 2016/17 a oedd yn well na'r disgwyl rydym yn disgwyl gwario £837,000 ar wella mynediad cerddwyr at ysgolion.

Yn 2016/17 mae project ar wahân gwerth £50k i wella marciau "Ysgol Cadwch yn Glir" y tu allan i Ysgolion hefyd yn cael ei ariannu gan arian wedi'i dderbyn trwy Orfodi Sifil.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

Cefais fy synnu'r wythnos arall i fod y tu allan i Fitzalan a chael gwybod gan rieni nad oeddech ar gael i gwrdd â nhw fel eu Cynghorydd Ward. Cefais fy synnu gan hynny.

Rwy'n meddwl yr hyn y mae ei angen ei gael yw dull cyfannol, ac rwyf am wybod a ydych yn sylweddoli bod plant yn mynd i'r ysgol yn y ddinas hon, lle bo damweiniau'n debygol iawn o ddigwydd a lle bo damweiniau wedi digwydd?

Bu croesfan nad oedd yn gweithredu am dwy wythnos ar Heol Orllewinol y Bont-faen – es i yno a gwelais blant yn rhedeg ar draws y ffordd. Mae ysgolion y mae angen dynion lolipop arnynt.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Rwy'n meddwl, y Cynghorydd McEvoy, mai'r broblem yw nad ydych chi bob amser yn gwrando ar yr atebion.
Rydym wedi bod yn glir iawn – neu rwyf yn sicr wedi bod yn glir iawn – am yr arian rydym yn ei wario i wneud yr ardaloedd hyn yn fwy diogel. Ddim yn wahanol i'r hyn y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn ei wneud. Rydym yn gwneud cymaint o ffyrdd ag y gallwn i'w wneud yn fwy diogel; rydym yn edrych ar barthau 20mya, cyfyngiadau hefyd.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Mitchell

Gan ystyried y problemau trydanol diweddar ym mloc A yn Cantonian roedd angen cau'r bloc ar eu cyfer, a all yr Aelod Cabinet roi diweddariad i mi ar y mesurau wedi'u cymryd hyd yn hyn ac ar ba gynigion sydd mewn grym i leihau tarfu pellach ar ddisgyblion Cantonian a'u rhieni?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Yn gyntaf, hoffwn ddweud faint rwyf yn difaru unrhyw anghyfleustra wedi'i achos i rieni a disgyblion. Fodd bynnag, rhaid i ddiogelwch disgyblion a staff yn yr ysgol fod yn eithriadol o bwysig.

Yn dilyn canfod problem gyda'r prif gyflenwad ar ddydd Mawrth 20 Medi, cafodd Bloc A yr ysgol ei gau. Y diwrnod nesaf, cafodd yr holl ysgol ei chau er mwyn profi'r trydan yn gynhwysfawr yn yr ysgol gyfan.

Agorwyd yr ysgol yn rhannol ar gyfer blynyddoedd 10, 11 ac ôl 16 oed o ddydd Iau 22 Medi, gan ddefnyddio Bloc B.

Mae Swyddogion y Cyngor a staff yr ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau y bydd gweddill yr ysgol yn ôl ar ddydd Llun 3 Hydref gan ddefnyddio 12 uned ystafell dosbarth, sy'n cael eu gosod ar hyn o bryd.

Hoffwn ddiolch i staff yr ysgol am eu gwaith caled, ond hefyd Swyddogion. Os yw unrhyw un ohonoch wedi gorfod cael unedau dros dro yn eich ysgol, byddwch yn gwybod faint o ymdrech yw cael 12 ar yr un pryd.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Mitchell

Dylid llongyfarch Pennaeth newydd Cantonian, gan ei bod wedi ymdrin â'r sefyllfa hon yn dda iawn.

Oni fyddech chi'n cytuno â mi y dylid diolch yn arbennig i'r staff a arhosodd am oriau ychwanegol ac a aeth uwchben a thu hwnt? Roeddent yn cario'r llyfrau o floc A i adeiladau eraill.

Rhaid i mi atseinio eich diolchiadau i aelodau'r staff sydd wedi trefnu'r ystafelloedd dros dro hyn. Byddant yn cynnig cyfleusterau gwell i'r disgyblion yno, ac edrychaf ymlaen at yr adeilad newydd, rwy'n meddwl bod hyn yn hanfodol ar gyfer y safle.

Felly maent wedi ymdrin â'r argyfwng ac oni fyddech chi'n cytuno y gellir defnyddio hyn er budd i'r ysgol?

Yn y bôn, ymyl arian i'r cwmwl du dros dro hwn.

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Merry

Hoffwn ddweud fy mod ond wedi clywed canmoliaeth gan swyddogion am waith caled athrawon a staff yn yr ysgol, ac yn enwedig y Pennaeth.

Yn amlwg, ni fyddai'r Aelod yn disgwyl i mi sylwi ar arian Ysgolion yr 21ain Ganrif band B, ond yn glir caiff cyflwr yr ysgol ei ystyried yn fawr.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

Hoffwn ddiolch i'r staff am eu gwaith caled yn ogystal ond y ffaith sydd dal i'w weld yw bod y Cyngor hwn wedi methu â rhoi addysg dros gyfnod sylweddol i blant yn fy ward.

Faint o gyfalaf a gaiff ei wario ar Cantonian ac ymhen pa amserlen?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Merry

Wel, byddwn yn rhannu eich pryder am gyflwr Cantonian, fel rwyf wedi'i wneud yn glir yn y siambr hon fy mod yn meddwl nad yw cyflwr rhai o'n hysgolion yn dderbyniol.

Ond y rheswm am hyn yw methiant i fuddsoddi yn adeiladau ein hysgolion dros amser hir.

Mae'r weinyddiaeth hon wedi gwario mwy, â'r rhaglen adeiladau ysgol mwyaf yng Nghymru, a ddylid ei wneud yn glir ar y pwynt hwn Ni allaf ddweud, ar y pwynt hwn, beth fydd yn digwydd dan arian band B, ond yn glir caiff cyflwr yr ysgol ei ystyried yn fawr. A hefyd beth yw'r cynlluniau canolradd ar gyfer yr ysgol.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Bowden

Gyda phwysau cynyddol am leoedd mewn ysgolion Caerdydd, a mwy o blant yn cyrraedd Caerdydd y mae angen iddynt gael eu haddysgu, a allwch chi ddweud wrthyf fi ba fesurau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith yn Nhîm Derbyn y Cyngor i alluogi rhieni ac ysgolion i fanteisio ar leoedd gwag ac i leoli plant yn gyflym?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Rwy'n falch o ddweud bod dyraniadau yn ystod y flwyddyn yn gyfredol, gyda'r tîm Derbyn yn bwrw'r targed 15 diwrnod ysgol wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targed wedi'i fwrw trwy arferion gwaith wedi'u hadolygu yn y tîm ac ad-drefnu swyddogaeth apelio'r ysgol. Mae hyn wedi galluogi'r staff Derbyn i ganolbwyntio ar ddyraniadau yn hytrach nag apeliadau.

Mae'r wefan a'r llyfryn "Gwybodaeth i Rieni" wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i wneud gwybodaeth yn fwy clir a mwy hygyrch i rieni.

Mae ymgynghoriad ynglŷn â threfniant derbyn cyd-drefnedig wedi'i gynllunio yn y dyfodol a fyddai, os ceir ei weithredu, yn cefnogi dyrannu lleoedd ysgol yn symlach yn y dyfodol.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Bowden

Rwy'n ymwybodol, pan fyddwn yn symud i'r rownd newydd o leoedd ar gyfer 2017/18, fod llawer o bwysau ar Dderbyniadau. A siaradais â chi'r llynedd ac awgrymais y gallai fod llinell ffôn dynodedig ar gyfer ysgolion sy'n trio cyrraedd yr adran derbyniadau sydd ar wahân i'r llinell i rieni, neu hyd yn oed rhyw fath o fewnflwch e-bost i sicrhau y gall ysgolion gysylltu â chi heb drafferth tra eich bod yn delio â rhieni hefyd.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Rwy'n mynd i fod yn onest o agored: Rwy'n credu, pan gafodd yr ateb ei gwtogi er mwyn ei gyflwyno mewn munud, y cafodd cyfeiriad at linell frys ei ddileu ac y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn yr hydref, ond byddaf yn cadarnhau hyn i chi.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Howells

Mewn perthynas â'r plant sy'n cyrraedd Caerdydd, a ydych chi wedi meddwl ymhellach am sut rydym yn bodloni anghenion addysg y plant hynny sy'n cyrraedd Caerdydd heb allu siarad llawer o Saesneg neu ddim o gwbl.

Mewn cyfarfod blaenorol rwyf wedi awgrymu y gallen ni greu uned neu unedau trochi, a thybio a ydych wedi cael cyfle i ystyried hyn?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Mae adroddiad yn cael ei lunio ar hyn a phan fo ar gael byddaf yn rhoi gwybod i chi.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Bridges
A oes gan dimau glanhau strydoedd fynediad rheolaidd at allweddi ar gyfer lonydd â gatiau pan ydynt yn gweithio fel arfer?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Nid oes gan swyddogion glanhau rheng flaen fynediad at allweddi er mwyn mynd i mewn i lonydd.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Bridges

Mae'n fy synnu'n fawr, y Cynghorydd Derbyshire, nad oes gan y tîm sy'n gyfrifol am gadw ein strydoedd yn lan fynediad at yr allweddi sy'n ei alluogi i wneud ei swydd.

Felly tybio beth fyddwch yn cytuno i'w wneud er mwyn rhoi'r offer iawn iddo fel y gall wneud ei swydd yn iawn a chyflawni rhwymedigaeth y Cyngor i gadw'r lonydd cefn yn lan.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Mae'n ddiddorol eich bod wedi gofyn y cwestiwn hwn nawr pan oedd eich plaid mewn pŵer am wyth mlynedd ac nid oedd y sefyllfa'n wahanol wedyn.

Yr ateb yw mai cymunedau â gatiau yw'r rhain, y mae'r gymuned ei hun am ei wneud. Mewn llawer o achosion, nhw sy'n gyfrifol am hunan-lanhau. Rhaid i weithredwyr lanhau'r lôn, byddant yn cysylltu â'r Goruchwylydd a threfnir i'r gatiau gael eu hagor. Felly gallant eu hagor ond nid ydynt yn gwneud felly yn rhan o broses arferol.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

A yw'r Cynghorydd yn ymwybodol o doriadau mewn criwiau glanhau yn Heol-y-Frenhines ac a yw'n gallu amlinellu i'r Cyngor yn union beth yw'r toriadau hynny wedi bod yn y pedair blynedd diwethaf.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Yn amlwg ni allaf roi ateb uniongyrchol i chi yn awr ond byddaf yn cael gwybod i chi ac yn rhoi gwybod i chi.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Graham Thomas

Faint o dunelli o wastraff ailgylchu a gasglwyd yn 2015 gafodd eu wrthod?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Nid oes gan swyddogion glanhau rheng flaen fynediad rheolaidd at allweddi er mwyn mynd i mewn i'r lonydd.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Graham Thomas

Faint o dunelli o wastraff ailgylchu a gasglwyd yn 2015 gafodd eu gwrthod?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Yn 2015/16, cafodd 5688 o dunelli o ddeunyddiau wedi'u casglu eu gwaredu yn hytrach na'u hailgylchu. Felly ni chawsant eu hailgylchu.
Mae bob amser yn ddeunyddiau nad oes eu heisiau gan unrhyw gynllun ailgylchu ymyl y ffordd Yng Nghaerdydd, rydym yn annog trigolion os nad ydynt yn siŵr i roi pacedi yn eu bagiau gwyrdd gan fod gennym y dechnoleg i'w trefnu.

Yr unig eitem nad ydym eisiau ei chael yn eu bagiau gwyrdd o gwbl yw gwastraff bwyd ac eitemau fel cewynnau. Ond hyd yn oed gyda chriwiau casglu gwastraff dyfal, gall yr eitemau hyn ddal i fynd trwy'r system yn achlysurol.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Graham Thomas

I gadarnhau, ai 5688 o dunelli oedd y cyfanswm? Felly, beth yw'r tunelledd wedi'i wrthod?
A fy nghwestiwn ategol yw - a yw hyn yn cyfrannu at ein targedau ar gyfer casgliadau cyffredinol?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Swm y deunydd a wrthodwyd oedd y tunelledd a ddywedais wrthych ac nid yw hynny'n cyfrannu at unrhyw ailgylchu.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Knight

Beth yw'r strategaeth gwastraff bresennol ar gyfer diwrnodau digwyddiadau yng nghanol y ddinas?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Mae timau glanhau yn gweithio'n galed i lanhau canol y ddinas cyn ac ar ôl digwyddiadau proffil uchel. Mae hefyd gennym dimau ymateb cyflym yng nghanol y ddinas sy'n gallu ymateb i unrhyw faterion gwastraff, ar yr amod ei bod yn ddiogel i wneud felly. Pan fo torfeydd mawr, yn amlwg mae'n eithaf anodd.
Mae hyn yn sicrhau bod safonau glanweithdra uchel canol y ddinas yn mynd yn ôl i'r arfer cyn gynted ag sydd ymarferol posibl.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Knight

Fel y dywedon ni'n flaenorol, mae'r tîm yn gwneud gwaith ardderchog yng nghanol y ddinas a hefyd bu'r digwyddiad Roald Dahl yr wythnos ddiwethaf yn llwyddiant enfawr.

Un peth a dorrodd fy nghalon wrth ei weld, fodd bynnag, oedd pobl yn rhoi pentyrrau o sbwriel wrth ymyl biniau a oedd yn gorlifo ar y diwrnod. Felly, ar gyfer diwrnodau digwyddiadau, oes modd ystyried biniau mwy a fydd yn gallu dal yr holl wastraff a grëir ar y diwrnodau hynny?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Rwy'n cytuno. Problem barhaol yw hon ac yn amlwg pan fo torfeydd mawr iawn, mae'r biniau'n llenwi. Yr hyn y byddaf yn annog pobl i'w wneud yw mynd â'u sbwriel adref â nhw neu geisio dod o hyd i fin i'w roi ynddo.

Fodd bynnag, rydych yn gywir wrth sôn am y biniau mwy. Rydym yn edrych ar hynny fel posibilrwydd. Fodd bynnag, pan edrychon ni ar hyn yn flaenorol, wrth drafod â'r Heddlu, nid yw'r Heddlu am resymau amlwg yn awyddus ar osod y biniau dros dro hynny. Felly mae problem yn ymwneud â diogelwch yn erbyn glanweithdra.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Lloyd

A allai'r Aelod Cabinet roi gwybod am yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â chynllun Gwobr Dug Caeredin yn ein hysgolion a'n canolfannau ieuenctid yng Ngogledd Caerdydd?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Mae Swyddfa Gwobr Dug Caeredin wedi gwneud penderfyniad polisi yn ddiweddar fel y mae modd i fwy o blant gymryd rhan yn y wobr trwy gefnogi ysgolion unigol i gael eu trwyddedu i gynnig y wobr. Dyma ddull y mae Swyddfa'r Wobr wedi'i gychwyn ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru.

Mae hyn wedi golygu bod darpariaeth Dug Caeredin yng Nghaerdydd yn cael ei haildrefnu gyda chanolbwynt newydd ar gynnig y rhaglen trwy ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd Caerdydd yn gweithio'r tymor hwn gyda Swyddfa'r Wobr i gynnig y rhaglen wobr ac rydym yn hyderus y bydd cynnig Gwobr Dug Caeredin cynhwysfawr ar gael i bobl ifanc yng ngogledd y ddinas.

Ar hyn o bryd, mae deg ysgol Caerdydd wedi'u trwyddedu'n llawn, mae pedair ysgol arall yn aros i waith papur gael ei lofnodi (felly yn glir mae gwaith papur yn rhan o'r broses) a chaiff tair ysgol arall eu cefnogi trwy'r gwasanaeth ieuenctid.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Lloyd

Dywedwyd wrthyf nad yw Ysgol Uwchradd Caerdydd ac Howardian yn bendant ddim yn gwneud Gwobr Dug Caeredin. A yw'r ddwy ysgol honno wedi cael cynnig o gymorth er mwyn parhau gyda'r cynllun?

Rwy'n gwybod bod pobl Gwobr Dug Caeredin yn ein hardal ac maen nhw'n helpu gyda Chyfeillion Nant Fawr sy'n ychwanegu at eu sgiliau cymdeithasol a gweithgareddau posibl i'w rhoi ar eu CV. Felly mae'n bwysig iawn ar gyfer cynnydd ein pobl ifanc yn ein cymunedau eu bod am gymryd y gwaith hwn.

Felly beth rydym yn ei wneud i alluogi ein sefydliadau addysgol i barhau gyda hyn?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Merry

Wel, hoffwn bwysleisio faint rwyf yn cytuno â chi am bwysigrwydd y cynllun.

Hoffwn roi sicrwydd i chi oherwydd rwy'n credu bod Ysgol Uwchradd Caerdydd ar y ffordd i gael trwydded. Ac, yn ôl y diweddariad sydd gennyf yma, mae'n aros am waith papur wedi'i lofnodi. Felly, yn glir, mae dan reolaeth.

Yn amlwg, nid penderfyniad y Cyngor yw hwn – penderfyniad Swyddfa'r Wobr yw e. Ond yr hyn rydym yn ei wneud yw derbyn y gallai rhai ysgolion y mae'r wobr yn newydd iddynt deimlo y gallwn gynnig y wobr efydd yn unig. Felly yr hyn rydym yn ei wneud yw cynnig darpariaeth er mwyn cynnig y gwobrau arian ac aur yn ganolog, pan nad yw ysgolion yn teimlo eu bod yn gallu eu cynnig.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Cowan

Pam na ddywedwyd wrthym fel Cynghorwyr?

Rydym wedi cael galwadau ac e-byst gan etholwyr sy'n gofidio am ddyfodol eu plant, a disgyblion eu hunain, y bydd y wobr yn dal i gael ei chynnig a'i chefnogi ledled Caerdydd. Felly mae diffyg ymddiddan a pharch aton ni yn amlwg yma.

Felly a allwch chi gadarnhau ar gofnod, os yw canolfannau ieuenctid am barhau i gynnig y wobr, y bydd yn cael ei chefnogi gan Gyngor Caerdydd, a allwch gyflwyno datganiad i roi gwybod i rieni?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Merry

Yn amlwg, nid oeddwn yn glir: Nid penderfyniad Cyngor Caerdydd yw hwn. Rydym yn gweinyddu'r cynllun, trwy drwydded, gan Swyddfa Gwobr Dug Caeredin. Mae eisiau symud at gynnig y cynllun yn uniongyrchol trwy ysgolion. Nid penderfyniad Cyngor Caerdydd yw hwn.

Os oes gan yr Aelod broblem gydag ef, byddaf yn awgrymu ei bod yn ei drafod gyda Swyddfa'r Wobr. Mae'n credu y bydd yn creu mwy o gyfleoedd i fanteisio ar y cynllun. Ei phenderfyniad hi yw e, nid ein penderfyniad ni. Rhodd drwydded i ni ac mae ganddi'r hawl i atal y trwydded.

<u>Cwestiwn:</u> Y Cynghorydd Sirol Thorne

A allai'r Aelod Cabinet roi diweddariad i ni am ddyfodol Canolfan Chwarae Grangetown?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Rwy'n falch o gadarnhau bod y broses o symud Canolfan Chwarae Grangetown i Ysgol Feithrin Grangetown yn mynd rhagddi'n dda.

Ar hyn o bryd mae proses dendro ar y gweill ar gyfer gwaith i wella cynnal a chadw'r adeilad. Amcangyfrifir y bydd yn costio tua £60-70m yn ddibynnol ar y broses dendro, rydym yn ei rhoi mewn fel cyfalaf.

Yn rhan o'r symud i'r ysgol feithrin, bydd y ganolfan yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymunedol gan gynnwys gwasanaeth chwarae a gallaf gadarnhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau chwarae yn parhau i gael eu cynnig ym mhob rhan o Grangetown.

Nes y caiff y ganolfan ei throsglwyddo, ni fydd dim newidiadau i'r trefniadau chwarae cyfredol fel rwyf wedi cadarnhau ar achlysuron lluosog.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Thorne

A allwch chi gadarnhau, unwaith y mae'r adeilad wedi'i drosglwyddo, y bydd chwarae yn parhau i gael ei ariannu nes y bydd y feithrinfa wedi'i sefydlu ac yn rhedeg?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Fel rwyf wedi cadarnhau ar achlysuron lluosog, fel yna y mae hi.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

A fyddech chi'n ymuno â mi i longyfarch y rhieni a'r ymgyrchwyr yn Grangetown, ac yn enwedig plant, sydd wedi brwydro a brwydro a brwydro ers 2013, pan ddywedodd y weinyddiaeth hon nad oedd dim arian ar gyfer y Ganolfan Chwarae ac nad oes modd ei hachub? Maen nhw wedi dyfalbarhau ac wedi cynnal ymgyrch ardderchog.

A fyddwch chi'n eu llongyfarch?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Byddaf yn llongyfarch unrhyw ymgyrch dros unrhyw wasanaeth cyhoeddus ond yn sicr byddaf yn llongyfarch y ddau Gynghorydd Llafur sydd wedi brwydro a brwydro a brwydo i achub y gwasanaeth chwarae.

Roeddwn yn gwybod y byddech yn grac am Feithrinfa Grangetown yn cymryd awenau Canolfan Chwarae Grangetown. Ac efallai y byddai diddordeb gan yr ymgyrchwyr hynny mewn gwybod roeddech chi'n rhan o weinyddiaeth, fel Dirprwy Arweinydd, a oedd am gau Ysgol Feithrin Grangetown.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Boyle

Faint o gynnydd sydd wedi bod o ran ail-drefnu dalgylchoedd ysgolion uwchradd yn nwyrain y ddinas ers i ymrwymiadau gael eu rhoi i'r Cyngor ym mis Mawrth?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Pasiodd y cynnig wedi'i ddiwygio ym mis Mawrth alwadau ar y Cabinet i fynd i'r afael â lleoedd ysgol trwy ehangu ysgolion cyfredol, adeiladu ysgolion newydd, ac ail-drefnu dalgylchoedd.

Bob tro, rwyf wedi bod yn onest gyda chi; mae'n fy synnu eich bod yn canolbwyntio ar ddalgylchoedd yn hytrach nag ehangu ysgolion. Pan siaradais â nifer mawr o rieni Marlborough mewn cyfarfod yn yr haf roeddent yn glir eu bod yn cefnogi'r opsiwn o edrych ar y posibilrwydd o ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Bydd angen i'r Cyngor ystyried ei raglen ysgolion cyn gyflwyno cynllun dan Fand B rhaglen adeiladau Ysgolion Llywodraeth Cymru. Byddai'r Cyngor yn ymddangos i fod yn gul ei feddwl os bydd yn newid dalgylchoedd cyn archwilio'r holl opsiynau, yn enwedig gan nad oes diffyg yn y lleoedd mewn ysgolion uwchradd yn yr ardal. Felly, ni fydd dim newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Daw ymgynghori ar dderbyniadau cyd-drefnedig i ben erbyn mis Mawrth 2017.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Boyle

Nid wyf yn meddwl i ni ddisgwyl i ddalgylchoedd gael eu newid erbyn 2017, ond mae pobl am weld ychydig gynnydd. Ac nid yw'r ateb, rwy'n credu, yn dweud wrthynt fod unrhyw gynnydd wedi bod.

Yn 2012, 2013 a 2014 mae gennym dair ysgol yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd – dwy yng Nghyncoed ac un ym Mhen-y-lan – dosbarth mynediad ychwanegol ym mhob un o'r ysgolion cynradd hynny. Mae swigen yn y tair ysgol gynradd mewn tair blynedd ddilynol sy'n mynd yn gyflym tuag at fynediad i mewn i Ysgol Uwchradd Caerdydd mewn tair blynedd ddilynol.

Felly ni all bobl fforddio aros ac maen nhw am deimlo bod cynnydd yn cael ei wneud ar fater sy'n dod yn gynyddol ddifrifol. Tybio a allech chi roi sicrwydd am bryd y gallant ddechrau cael atebion penodol, boed ar fater ehangu neu ddalgylchoedd, beth bynnag. Ar hyn o bryd am bryd byddwch yn cyflwyno eich cynlluniau iddynt.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Merry

Rwy'n cydymdeimlo'n fawr gyda rhieni nad ydynt yn siŵr am ba ysgol uwchradd y gall eu plant ei mynychu. Yn anffodus, pe baen ni ymdrin â hyn yn gyflym trwy newid y dalgylch, ni fyddai'n cael ei weithredu tan fis Medi 2018.

A'r canlyniad rhesymegol fyddai symud rhieni i mewn i ddalgylch ar gyfer ysgol uwchradd sydd eisoes gyda lleoedd gwag. Felly gallant ddal i roi'r ysgol honno ar eu rhestr o ddewisiadau ar hyn o bryd.

Nawr, o’r holl sgyrsiau rwyf wedi’u cael gyda rhieni Marlborough, mae gwell wedi bod ganddynt yr opsiwn o edrych ar ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd, yn hytrach na'u cymryd allan o’r dalgylch. Os oes gennych wybodaeth sydd i’r gwrthwyneb, yna byddwn yn hapus iawn i siarad â chi  ar wahân am hynny. Ond rhaid i ni archwilio’r posibilrwydd o ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd a’r niferoedd sy’n rhan o hyn. A rhaid i ni hefyd edrych arno mewn ffordd sy’n fwy cyfannol. Rhaid i ni hefyd edrych ar yr arian sydd ar gael trwy Fand B a blaenoriaethau eraill. Felly hoffwn i pe gallwn roi ateb mwy pendant, Joe, yn awr. Ond os ydych yn dweud wrthyf y hoffai eich rhieni iddynt gael eu symud i mewn i ddalgylch Cathays yna byddwn yn cael sgwrs y tu allan.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Thorne

A yw’r Aelod Cabinet yn ymwybodol o honiad diweddar heb ei esbonio gan Plaid Cymru fod Canolfan Hamdden Trem-y-Môr dan fygythiad o gael ei chau ac a fydd yn cadarnhau sefyllfa gyfredol ac i'r dyfodol y cyfleuster lleol pwysig hwn ac a fydd yn amlinellu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer y Ganolfan yn y dyfodol?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Rwyf wrth fy modd bod yr Aelod dros Grangetown wedi dwyn yr honiad gwbl ffug gan Plaid Cymru i fy sylw gan fy mod am ei wneud yn berffaith glir - ac rwy'n ailadrodd: Dim cynlluniau – i gau Canolfan Hamdden Trem-y-Môr.

Tynnodd Canolfan Trem-y-môr yn ei hôl o’r broses o gaffael canolfannau hamdden fel y gallai’r Cyngor cadw’r cyfleuster, y ystyriwyd ei fod yn fwy addas ar gyfer cynnig gweithgareddau dŵr yn unol â chyfrifoldebau’r Cyngor wrth weithredu fel Awdurdod yr Harbwr.

Gan fod wrth ymyl yr unig bwynt mynediad cyhoeddus i'r Bae dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn symud Canolfan Trem-y-môr o “canolfan hamdden gyda gweithgareddau dŵr” i “canolfan dŵr gyda gweithgareddau hamdden”.

Mae’r newidiadau hyn a fydd yn parhau wedi arwain at sefyllfa ariannol llawer gwell gyda’r bwriad o gael dim cymhorthdal sy’n berthnasol i’r ganolfan ymhen tair blynedd. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn y Ganolfan gyda chanolbwynt penodol ar gyfleusterau dŵr.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Thorne

Y Cynghorydd Bradbury, a fyddech chi’n cytuno â mi nad yw'n dderbyniol i daenu sïon fel hyn am wasanaeth y mae pawb yn ei hoffi yn y gymuned a’r ffaith nad yw'r staff sydd yno wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu’r gwasanaeth hwn – gallent fod wedi teimlo bod eu swyddi mewn perygl ac roedd yn gwbl anghyfrifol.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Nid wyf yn gwybod lle i ddechrau gyda hyn. Mae’n gwbl warthus. Ac mae’r Aelod rwy'n amau iddo chwarae rhan yn hyn ar fin ofyn y cwestiwn ategol i mi. Felly byddaf

yn gofyn iddo tra fy mod yma: A fyddwch chi'n tynnu'r daflen y dosbarthoch yn Grangetown yn ôl?

Cwestiwn ategol: Y Cynghorwyr Sirol McEvoy

Onid ydych yn sylweddoli nad yw pobl yn eich credu? Os ydych yn edrych ar hanes cyson y Cyngor hwn. Ystyriwch City Farm. - y pontio didrafferth – ac aeth hynny. Rydym hefyd yn cofio yma'r addewid i beidio â chodi Treth Gyngor – nid oedd dim cynlluniau i godi Treth Gyngor - ac edrychwch ar beth ddigwyddodd. Yr addewid i beidio ag adeiladu ar safleoedd maes glas – ac edrychwch ar beth sy'n digwydd yno.

Felly a fyddwch chi'n cyhoeddi prawf ysgrifenedig o gytundeb contract rhwng y Cyngor hwn a'r ganolfan hamdden honno i sicrhau arian dros y pum mlynedd nesaf?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bradbury

Nid wyf yn gwybod lle i ddechrau gyda hynny.

Yn gyntaf oll, roedd yn Adroddiad y Cabinet ar gaffael hamdden a amlinellodd yn berffaith glir yn ysgrifenedig - yn ysgrifenedig mewn dogfen y cymeradwyon ni fel Cabinet ar yr Hamdden ADM - beth oedd y cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer Trem-y-môr. Dyma'n union yr hyn y tynnais sylw ato wrth ateb eich cwestiwn. Felly os hoffech chi gael prawf ysgrifenedig o'r hyn rydym yn siarad amdano, edrychwch ar Adroddiad y Cabinet.

Mae'n fy synnu eich bod yn cymryd yr agwedd rydych yn ei chymryd oherwydd gwnes i ychydig o ymchwil. Gwnes i ychydig o ymchwil ac edrychais ar Geredigion. Mae Ceredigion yn awdurdod a redir gan y grŵp Plaid, ac mae'n gofyn, yn ôl y Cambrian News ar 25 Mai, i drigolion lleol yn Llandysul gymryd awenau'r ganolfan hamdden yno. Cymryd yr awenau gan eu bod wedi torri £42,000 mewn dwy flynedd ac maen nhw wedi dweud "rydym yn trio'n enbyd i ennyn diddordeb ac mae grŵp o drigolion lleol yn camu ymlaen i drio ei wneud."

Rwyf wedi dweud ar y cofnod, tra fy mod yn Aelod Cabinet, y bydd Canolfan Hamdden Trem-y-Môr yn aros ar agor.
A ydych chi'n mynd i gondemnio eich gweinyddiaeth – y weinyddiaeth a redir gan grŵp Plaid yng Ngheredigion am ofyn i drigolion lleol redeg canolfan hamdden?

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Weaver

Dechreuodd y sesiynau glanhau yn Cathays ym mis Medi. A all yr Aelod Cabinet ddweud faint o strydoedd roedd timau'r Cyngor yn gallu eu glanhau'n drylwyr?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Gwnaethpwyd y sesiwn glanhau yn Cathays yn ystod yr wythnos yn cychwyn 12 Medi. Roedd y criwiau'n gallu glanhau 42 stryd yn drylwyr yn ystod y pum diwrnod.

Glanhaodd tîm glanhau gylïau 309 o 378 o gylïau ledled Cathays.

Cyflwynwyd wyth Hysbysiad Adran 215 ar gyfer eitemau swmpus wrth wyneb adeiladau.
Cyflwynodd Gorfodi wyth Hysbysiad Atal Difrod Plâu ar gyfer gwastraff yn dianc wrth wynebau adeiladau. Cafodd pump eu clirio gan y perchenogion a chafodd tri eu clirio gan y Cyngor ac adenillir arian ar gyfer y costau i wneud felly.

Atgyweiriodd timau palmantau 66 o balmantau wedi'u difrodi oedd ar ein cofnodion archwiliadau.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Weaver

Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw. Mae'n wych clywed yr ystadegau ar hyn. A dywedodd trigolion ar ôl hyn pa mor wych oedd gweld y strydoedd yn cael eu glanhau'n drylwyr. Rwy'n credu bod hyn yn enghraifft da iawn o sut gallwn dargedu ein hadnoddau mewn cyfnod o gyni ond dal i gynnig y pethau y bobl am eu cael

Fy nghwestiwn, yn gyntaf, yw a fyddwch chi ar fy rhan i yn diolch i'r staff oedd yn gweithio yn Cathays ac sydd wedi bod yn gweithio mewn wardiau eraill yn y ddinas ar hyn byth er hynny. Gwelais roeddent yn gweithio'n eithriadol galed.

Ond hefyd roedd llawer o wirfoddolwyr yn gwneud gwaith yr wythnos honno. Un o'r pethau gwych am y cynllun hwn yw y rhodd gyfle i wirfoddolwyr wneud gwaith ac roedd trigolion yn Cathays yn codi sbwriel ac yn clirio meysydd chwarae gyda phlant o Ysgol St Monica. Trwy gyd-ddigwyddiad, yn ystod yr un wythnos, bu cyfarfod ar gyfer trigolion yn Cathays i sefydlu-

A fyddwch chi'n diolch i'r staff, diolch i'r gwirfoddolwyr, y trigolion a ddaeth i helpu a beth allwch chi ei wneud i hybu Cadwch Cathays yn Daclus a grwpiau eraill o drigolion ledled y ddinas sy'n chwarae eu rhan i gadw ein strydoedd yn lan?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Byddaf yn bendant yn llongyfarch y staff, ond rwyf eisiau llongyfarch y gwirfoddolwyr yn Cathays. Ac nid yn unig yn Cathays - mewn ardaloedd eraill hefyd. Roeddwn yn Sblot ar ddydd Sadwrn. Roeddent yn wneud gwaith ardderchog yno. A pho fwyaf o'r grwpiau hyn sy'n cymryd perchenogaeth o'u hardaloedd y gorau oherwydd gallai hynny, gobeithio, embarasio'r bobl hynny sy'n gollwng sbwriel. A rhaid i ni gofio: Nid y Cyngor sy'n gollwng sbwriel, y bobl sy'n gollwng sbwriel. Y Cyngor yw'r un y mae rhaid iddo ei glirio. Felly, po fwyaf y gallwn ei wneud i annog ysbryd cymunedol, y gorau.

Yn eich ardal yn unig, gwneir 86 awr o wirfoddoli i lanhau parciau ayyb a oedd yn cynnwys iard eglwys Sant Ioan yng nghanol y ddinas yn ystod yr amser hwnnw. Ac rwy'n credu bod hyn yn gyflawniad ardderchog a gobeithio y bydd y gwaith yn parhau.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Bridges.

Gan ein bod ni'n trafod glanhau strydoedd, gwna i drio eto i lanhau lonydd cefn. Oherwydd sylwais nad oedd fy ward fy hun yn rhan o'r sesiynau glanhau.

Rwy'n ymwybodol o'r hyn rydych yn ei ddweud am bwysigrwydd gwirfoddolwyr yn glanhau ardaloedd ac rwy'n siŵr y bydden ni i gyd yn cytuno â hyn. Fodd bynnag, cafodd trigolion yn fy ward sydd â lonydd gyda gatiau addewid pan roddwyd gatiau yn y lonydd hynny y byddai'r Cyngor yn cadw'r un lefel o gyfrifoldeb am eu glanhau fel roedd ganddynt yn flaenorol. Ac eto rydych wedi dweud yn gynharach yn y siambr hon heno fod y trigolion hynny bellach yn gyfrifol am lanhau'r lonydd hynny. P'un sy'n gywir?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

O ran rhannau mewnol o'r ddinas, yn gyntaf oll, mae'r sesiynau glanhau ar gyfer wardiau mewnol y ddinas, a dyma pam nad yw eich ward eich hun wedi'i gynnwys. Er hynny, caiff gwaith ei wneud yn eich wardiau.

O ran cymunedau gyda gatiau, byddaf yn cadarnhau beth yw'r sefyllfa gyda nhw: Beth gafodd ei addo, oherwydd roedd hynny cyn i mi gymryd y rôl hon, ac i weld lle rydym wedi cyrraedd. A byddaf yn rhoi gwybod i chi.

<u>Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Weaver</u>

Angen i fasnachwyr allu parcio pan ydynt yn gweithio mewn eiddo, ond mae llawer o ddigwyddiadau pan fo faniau a cerbydau lluosog – ynghyd â sgipiau – wedi'u parcio mewn mannau parcio i breswylwyr i weithio mewn un tŷ. A fydd yr Aelod Cabinet yn edrych ar gyflwyno cynllun trwyddedau i fasnachwyr ddefnyddio mannau parcio i breswylwyr, fel y mae modd rheoli hyn yn haws a gorfodi rheolau parcio?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Patel

Mae'r Strategaeth Parcio yn rhoi cyfle i ni adolygu'r polisi trwyddedau i breswylwyr a byddwn yn edrych ar gyflwyno cynllun trwyddedau i fasnachwyr.

Fel rydych yn gwybod, rheolir sgipiau trwy drwyddedau ac maen nhw'n wahanol i gerbydau masnachu gan fod y Ddeddf Priffyrdd yn caniatáu i'r Cyngor drwyddedu a gorfodi'r agwedd hon.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Weaver

A allaf eich annog a gofyn i chi: A fyddwch chi'n ymrwymo i edrych arno cyn gynted ag y gallwch?

Rydym wedi cael trigolion yr haf hwn yn ein hward – ond rwy'n gwybod bod hyn yn digwydd mewn wardiau eraill yn y ddinas – gyda chwe neu saith fan – gyda chwe neu saith fan yn dod i un eiddo. A gallai gymryd yr holl fannau parcio i breswylwyr yn y bloc.
Mae dinasoedd eraill sy'n ei wneud – rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol o rai ohonynt - Bryste, Brighton, nifer o fwrdeistrefi yn Llundain, efallai Caer-wynt – nid wyf yn gwybod pe gallen ni ofyn i rywun – ond rwy'n credu y dylen ni edrych ar arfer gorau a wneir ledled y wlad a gweld a allwn ni ei wneud cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr ward hefyd, sef y Cynghorydd Merry a'r Cynghorydd Sam Knight hefyd, am ddwyn hyn i fy sylw.

A byddwn yn sicr yn edrych arno i weld arfer da yn rhyw le arall a hefyd i drio ei gyflwyno cyn gynted ag y gallwn.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Clark

Hoffwn ychwanegu, gan ofynnwyd am gynllun bron i flwyddyn yn ôl i'r tîm parcio a hefyd i chithau - rwyf wedi bod yn ymgyrchu dros hyn hefyd - pryd caiff ei gyflwyno?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Patel

Fe'i gwnaeth yn glir iawn yn fy ateb, byddwn yn edrych ar y cynllun. Ni ddywedais pryd caiff ei wneud. Gofynnodd y Cynghorydd Weaver y cwestiwn "a ellir ei wneud cyn gynted â phosibl?" A dywedais y byddwn yn ei wneud cyn gynted â phosibl, a dywedais y byddwn yn edrych arno cyn gynted ag y gallwn a byddwn yn edrych ar ba mor gyflym y gallwn ei wneud.

Felly'r ateb yw, yn y bôn, byddwn yn ei wneud cyn gyflymach ag y gallwn. Ond ni allaf roi dyddiad neu amser ar yr adeg hwn.

Cwestiwn: Y Cynghorydd Sirol Ali
Pa gymorth y mae Llywodraeth y DU wedi'i roi i Gyngor y Ddinas er mwyn bodloni'r angen brys am ailddatblygu Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog yn fawr?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Bale

Mae ailddatblygu Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog yn flaenoriaeth hanfodol ar gyfer y weinyddiaeth hon.

Bydd Aelodau'n cofio i mi ei wneud yn glir i Llywodraeth y DU fod angen ar gymorth Caerdydd ar gyfer y Fargen Ddinesig ymrwymiad Aelodau i ymddiddan adeiladol am wneud i hyn ddigwydd. Yn ystod misoedd diweddar, rwyf wedi parhau i ganlyn arni â'r mater hwn trwy drafodaethau gyda Phrif Weithredwr Network Rail, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Weinidog Cymru. Mae ailddatblygu Caerdydd Canolog yn flaenoriaeth hanfodol y mae rhaid i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail gymryd y sylw mwyaf ohoni.

Mae'r mater hwn bellach ar gam pwysig o ystyried y gwaith cyfredol o ailddatblygu Sgwâr Canolog Caerdydd a'r gwaith gerllaw o adeiladu cyfnewidfa fysus newydd y ddinas. Nawr yw'r amser i Lywodraeth y DU – a Network Rail – symud y project hwn yn ei flaen yn benderfynol ac i nodi bod Caerdydd yn mynd i fanteisio ar y math o fuddsoddi mawr a welir mewn gorsafoedd ledled Dinasoedd Craidd eraill y DU.

Byddwn yn gofyn i'r holl Aelodau fy nghefnogi wrth i fi ganlyn arni ar y mater hwn ac i wneud popeth y gallant i helpu i ddatgloi project ailddatblygu sydd â'r potensial i wneud cyfraniad parhaol at sefyllfa gystadleuol Caerdydd am flynyddoedd maeth.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Ali

A allech chi gadarnhau a fydd cyswllt o hyd rhwng ochr y de ac ochr y gogledd, y cyfleuster dan y ddaear neu'r bont droed ar y cynnig hwn?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bale

Yn glir, un o fuddion mwyaf datblygu'r orsaf drenau ar yr un pryd â'r gyfnewidfa fysus yw y hoffen ni weld y cyswllt hwnnw rhwng y ddau adeilad. Mae hanfodol bwysig, pan fo pobl yn cyrraedd y ddinas, eu bod yn gallu symud rhwng yr orsaf drenau a'r gyfnewidfa fysus yn ddidrafferth. Mae'n bwynt rwyf wedi'i wneud yn glir iawn i Network Rail a Gweinidogion Llywodraeth y DU. A gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn dygnu ar yr achos hwnnw'n gryf iawn yn y misoedd i ddod.

<u>Cwestiwn ategol:</u> Y Cynghorydd Sirol Walker

A allaf ofyn i chi, o ran y cymorth rydych yn ei roi, pam rydych yn amau'r Llywodraeth a bod Network Rail yn ennill eich cymorth? Rwy'n golygu, rydych yn ymgyrchu drosto – mae hynny'n iawn. Rydych wedi siarad â'r holl bartïon perthnasol. Pam fo unrhyw amheuaeth os nad oes problem, rydych newydd esbonio - rydych wedi gofyn i bawb amdano ac mae pawb yn cydweithredu.

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Bale

Rwy'n meddwl yn y cwestiwn hwnnw, rwy'n gobeithio i Geidwadwyr Caerdydd ymrwymo i gefnogi'r achos i ailddatblygu'r Orsaf Ganolog.
Yr hyn rydym yn ei ddweud ar hyn o bryd yw ein bod wedi dechrau trafodaethau gyda Gweinidogion y Llywodraeth, mae'n cymryd yn hirach nag y hoffem, ac rydym yn gofyn am gymorth gan chi ac eraill, yn wir, i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad rydym yn ei wneud yn y gyfnewidfa fysus ganolog trwy ailddatblygu'r orsaf drenau tua'r un amser.

<u>Cwestiwn:</u> Y Cynghorydd Sirol Ali Ahmed

A allwch chi gadarnhau eich llwyddiant o ran y targed ailgylchu gan ein bod wedi cael problemau gyda biniau mawr a llai?

<u>Ymateb:</u> Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Yn gyntaf oll a gaf i longyfarch pawb sydd dal yma a phawb sy'n effro? Mae wedi bod yn gyfarfod hir ond cynhyrchiol, rwy'n credu.
Cyflwynwyd y rhaglen gyfyngu ar amser yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
Yn rhan o'r cynllun ailgylchwyd 2679 tunnell o ddeunyddiau ychwanegol yn 2015/16.
Helpodd ni i fwrw targed statudol Llywodraeth Cymru o 58% ar gyfer 2015/16.

Mae perfformiad y cynllun yn parhau i olygu bod mwy o ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu yn 2016/17, gyda 2208 o dunelli ychwanegol sydd wedi'u hailgylchu yn y flwyddyn ariannol bresennol hyd yn hyn. Rwy'n credu bod hyn yn newyddion da.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Ali Ahmed

Y llynedd, cwynodd llawer o drigolion am y biniau llai, gan gynnwys arddangosiad enfawr y tu allan i Neuadd y Ddinas yn ystod un o gyfarfodydd llawn y Cyngor hyn, gydag o bosibl tua 50, 60, neu 80 bin mawr, ac bu rhai o'r trigolion yno hefyd. Ond, yn amlwg, bwriwyd eich targed – targed y Cyngor - yn llwyddiannus. A fyddech chi'n diolch i drigolion Caerdydd am gefnogi cynnig y Cyngor i fwrw'r targed ailgylchu?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Byddaf yn bendant yn llongyfarch trigolion Caerdydd. Nid oes unrhyw ffordd, yn amlwg, y gall y Cyngor ei wneud ar ei ben ei hun.

Mae penderfyniadau anodd i'w gwneud, bob amser, ar gyfer y dyfodol. Bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Bydd gan y weinyddiaeth nesaf heriau newydd o ran ailgylchu. Ond, i mi, y peth mwyaf amlwg yw bod y rhan fwyaf o bobl bellach yn sylweddoli nad yw bin llai yn broblem fawr mewn gwirionedd ar yr amod ei fod yn cael ei ailgylchu'n iawn. A dyna beth rydym eisiau ei annog. Byddwn yn parhau i annog. Byddwn yn parhau i drio dod o hyd i fwy o bethau rydym yn gallu eu hailgylchu yn y dyfodol, oherwydd mae hynny hefyd yn bwysig iawn. Rydym eisiau rhoi i'r trigolion yr holl help y gallwn i ailgylchu cymaint o ddeunyddiau ag y gallwn, oherwydd dyna'r ffordd i gynyddu.

Cwestiwn ategol: Y Cynghorydd Sirol Boyle

Y Cynghorydd, a gafodd y biniau du mwy eu cyfrif yn rhan o'r ffigwr ailgylchu – y ffigwr ailgylchu o 58%? Ac os cawsant, pa ganran o'r 58% hwnnw oeddent – neu a wnaethant gyfrannu at y ffigwr?

Ymateb: Y Cynghorydd Sirol Derbyshire

Nid wyf yn ymwybodol iddynt gyfrannu at y ffigwr. Cafodd y rhan fwyaf o'r biniau eu hanfon i ffwrdd, ond hefyd cadwon ni swm mawr ohonynt oherwydd, yn amlwg, mae llawer o bobl, fel y dywedon ni ar yr amser, roedden ni'n llawer mwy hyblyg na chynghorau eraill pan ddywedon ni os oes gennych fwy na phump yn eich cartref, er enghraifft, gallech gael fin mwy. Felly mae dal i fod nifer o bobl sydd â mwy na phump, os edrychwch o gwmpas Cathays a Phlasnewydd, lle bod llawer o fyfyrwyr, er enghraifft, bydd gan lawer ohonynt finiau mwy. Felly mae angen i ni gadw'r rhain i gymryd lle'r biniau pan gaiff eu gwaredu. Felly mae dal gennym lawer ohonynt sy'n cael eu cyflwyno.

77 : MATERION BRYS

Nid oedd dim materion brys.

78 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOLION YR AWDURDOD LLEOL

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol wedi cyfarfod ar 14 Medi 2016 er mwyn gwneud argymhellion i'w cymeradwyo gan y Cyngor ar Lywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo'r penodiadau canlynol i Lywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol: -

Swyddi Gwag Presennol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd | Enwebiad |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bryn Hafod | Llanrhymni | 19/05/2016 | Tony Powell |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | Cyncoed | 19/07/2016<br>20/07/2016 | Y Cyng. Margaret Jones<br>Liane Wigley |
| Canolfan Blant Trelái a Chaerau | Trelái | 23/06/2015 | Denise Kelland |
| Ysgol Gynradd Gabalfa | Ystum Taf | 22/04/2016 | Hannah Buckingham |
| Ysgol Gynradd Glyncoed | Pentwyn | 24/09/2015 | David Hughes |
| Ysgol Gynradd Grangetown | Grangetown | 22/06/2016 | Miguela Gonzalez |
| Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth | Pentyrch | 14/03/2016 | Lauren Stork |
| | | | |
| Ysgol Gynradd Howardian | Pen-y-lan | 13/01/2016 | Louise Gardner |
| Ysgol Gynradd Kitchener | Glan-yr-afon | 02/07/2016 | Y Cyng.Caro Wild |
| Ysgol Gynradd Llanedern | Pentwyn | 02/07/2016 | Alex Ingram |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | Ystum Taf | 28/01/2006 | Mike Borley |
| Ysgol Gynradd Meadowlane | Trowbridge | 07/06/2016 | Katherine Whittington |
| Ysgol Gynradd Millbank | Caerau | 20/07/2016 | Y Cyng.Peter Bradbury |
| Ysgol Gynradd Teilo Sant yr Eglwys yng Nghymru | Pentwyn | 10/05/2016 | Jenny Rathbone |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | Yr Eglwys Newydd | 17/07/2015 | Christian Webb |
| Ysgol Pencae | Llandaf | 21/10/2015 | Eryl Siriol Burford |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Pwll Coch | Treganna | 27/01/2016 | Rebecca Avci |

Swyddi Llywodraethwyr i'r Dyfodol

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd | Enwebiad |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Llwynbedw | Y Mynydd Bychan | 01/02/17 | Dan Walsh |
| Ysgol Gynradd Bryn Celyn | Pentwyn | 13/12/16 | Mark Perrins |
| Ysgol Uwchradd Cathays | Gabalfa | 25/09/16 | Y Cyng. Elizabeth Clark |
| Ysgol Gynradd Coed Glas | Llanisien | 19/10/16<br>9/10/16<br>26/10/16 | Michael Bryan<br>Charles Taylor<br>Y Cyng. Garry Hunt |
| Ysgol Gynradd Coryton | Yr Eglwys Newydd | 01/02/17 | Y Cyng.David Groves |
| Ysgol Greenhill | Rhiwbeina | 28/09/16<br>28/09/16 | Anne Ambler<br>Stephen Durrani |
| Ysgol Gynradd Hawthorn | Ystum Taf | 28/09/16 | Y Cyng. Dilwar Ali |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach | Rhiwbeina | 14/12/16 | Paul Jeffries |
| Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog | Caerau | 14/12/16 | John Union |
| Ysgol Gynradd Parc Ninian | Grangetown | 14/12/16 | Y Cyng. Lynda Thorne |
| Ysgol Gynradd Oakfield | Trowbridge | 13/12/16 | Sian Burgess-Hunt |
| Ysgol Gynradd Sain Ffagan yr Eglwys yng Nghymru | Trelái | 21/11/16 | Julie Thomas |
| Ysgol Gynradd Ton yr Ywen | Y Mynydd Bychan | 19/12/16 | Y Cyng. Lyn Hudson |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad | Butetown | 1/10/16<br>1/10/16<br><br>1/10/16 | Y Cyng. Ali Ahmed<br>Dafydd Trystan Davies<br>Mair Parry Jones |
| | | | |

79 : AELODAU'R PWYLLGOR

Derbyniodd y Cyngor adroddiad yn rhoi gwybod iddo am y newid yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar ôl cael gwybod gan y Cynghorydd Marshal (Annibynnol) ei bod wedi ymuno â Grŵp Plaid Cymru; a'r Is-etholiad ar 20 Medi 2016 pan etholwyd y Cynghorydd Robin Rea (Democrat Rhyddfrydol) i Ward Plasnewydd.

Yn ogystal yn unol â dymuniadau'r Grŵp Plaid, cafodd enwebiadau i unrhyw leoedd gwag ar y Pwyllgor eu cynnwys ar y daflen ddiwygiadau.

PENDERFYNWYD –

(1) nodi'r newid yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel y nodir yn yr adroddiad; a

penodi'r Cynghorydd Magill i lenwi'r swydd wag ar y Pwyllgor Amodau Cyflogaeth yn unol â'r dyraniadau wedi'u cymeradwyo a'r enwebiad wedi'i dderbyn fel y nodir ar y Daflen Ddiwygiadau.

80 : PENODI I GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gytuno i benodi cynrychiolwyr y Cyngor i Gyrff Allanol dan swyddogaethau Dewis Lleol yn unol ag enwebiadau wedi'u derbyn gan Grwpiau Plaid fel y nodir ar y daflen ddiwygiadau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel cynrychiolwyr Dinas Caerdydd i gyrff allanol:

| Enw'r Sefydliad | Cynrychiolydd wedi'i Enwebu |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Gadw Adeiladau Cymric | Y Cynghorydd Manzoor Ahmed (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio) |
| Grŵp Cynghorol Ynys Echni | Y Cynghorydd Manzoor Ahmed (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio) |
| Cymdeithas Llywodraeth Lleol – Bwrdd Lles Cymunedol 2016/17 | Y Cynghorydd Bale (Arweinydd y Cyngor) |

81 : PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL - CYLCH GORCHWYL

Gofynnwyd i'r Cyngor gywiro gwall gweinyddol a wnaethpwyd wrth fabwysiadu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn y Cyngor Blynyddol ar 26 Mai 2016.

PENDERFYNWYD –cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol fel y nodir yn yr adroddiad fel cywiriad i wall gweinyddol i'r adroddiad i'r Cyngor Blynyddol ar 26 Mai 2016.

82 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD
(Y CYNGHORYDD GRAHAM HINCHEY)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL McEVOY

Faint o bobl a gafodd eu cyflogi'n a) llawn amser b) rhan amser gan Gyngor Sir Caerdydd ar 03/05/2012 ac ar 01/09/2016?

Ymateb

Nodir yr wybodaeth yn y tablau canlynol, sy'n cynnwys dadansoddiad o ffigyrau ar gyfer cyflogeion ysgolion a chyflogeion nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion:

Niferoedd staff ar 3 Mai 2012:

| | Ysgolion | Ddim mewn Ysgolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llawn amser | 2685 | 4654 | 7339 |
| Rhan amser | 3893 | 3292 | 7185 |
| Cyfanswm | 6578 | 7946 | 14524 |

Niferoedd staff ar 1 Medi 2016:

| | Ysgolion | Ddim mewn Ysgolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llawn amser | 2845 | 3831 | 6676 |
| Rhan amser | 3855 | 2390 | 6245 |
| Cyfanswm | 6700 | 6221 | 12921 |

AMGYLCHEDD (Y CYNGHORYDD BOB DERBYSHIRE)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL CHAUNDY

Yn achlysurol, caiff bagiau gwyrdd eu methu yn ystod casgliadau wythnosol ac yna maen nhw'n cael eu difrodi neu'u rhwygo sy'n gwneud llanast; heblaw am eu cyflwyno ar y dyddiad anghywir oes rheswm da dros beidio â chasglu bagiau gwyrdd hyd yn oed os ydynt wedi'u difrodi?

Beth yw'r trefniadau ar gyfer bagiau fel hyn sydd wedi'u hanghofio neu'u rhwygo i'w hagor, ar gyfer casgliadau a gwaith glanhau penodol?

Ymateb

Os yw bagiau ailgylchu gwyrdd wedi'u halogi'n fawr (e.e. gyda gwastraff bwyd), yna gallai hyn effeithio ar y gwaith prosesu ac ansawdd y deunyddiau y gellir eu hailgylchu yng Nghyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (CAD) y Cyngor yn Ffordd Lamby. O ganlyniad, mae criwiau casglu gwastraff wedi cael cyfarwyddiadau i beidio â chymryd y bagiau hyn, ond i nodi cyfeiriad yr aelwyd er mwyn i'r Tîm Gorfodi ac Addysg ymweld â hi a chymryd camau gweithredu priodol.

Os yw bag wedi'i halogi ychydig, yna bydd y criwiau yn ei gasglu.

Bydd y criwiau'n casglu bagiau wedi'u rhwygo; ond, nid oes ganddynt y capasiti i gasglu gwastraff sylweddol a allai fod wedi'u gollwng ar y palmant neu'r briffordd cyn iddynt gyrraedd. Adroddir materion o'r math i'r tîm glanhau a fydd yna'n mynd i'r afael â'r mater.

Os nad yw criw casglu'n casglu gwastraff wedi'i gyflwyno'n gywir, dylai'r preswylydd gysylltu â Chysylltu â Chaerdydd.

Os nad yw trigolion yn siŵr am beth i'w roi yn y bag gwyrdd, gallant naill ai edrych ar wybodaeth ar wefan y Cyngor neu ffoniwch Cysylltu â Chaerdydd am gyngor.

SGILIAU, DIOGELWCH AC YMGYSYLLTU (Y CYNGHORYDD DAN DE'ATH)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL BRIDGES

Pa gymorth gaiff ei roi i Aelodau sy'n camu i lawr yn etholiad mis Mai i hwyluso proses drosglwyddo i'w dilynwr/dilynwyr?

Pa gymorth cyfatebol gaiff ei roi i'r Aelodau hynny nad ydynt yn disgwyl camu i lawr ond sy'n aflwyddiannus yn yr etholiad?

Ymateb

Bydd Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi arweiniad i Aelodau yn gynnar yn 2017 ar y brosesau a'r cymorth a gaiff eu rhoi ar waith cyn etholiad y Cyngor ym mis Mai y flwyddyn nesaf.

Ein bwriad yw gwneud y pontio mor haws ag sy'n bosibl ar gyfer Aelodau, gan roi amser iddynt gwblhau gwaith achos ac i gwblhau neu drosglwyddo unrhyw faterion heb eu penderfynu sy'n ymwneud ag wardiau; dychwelyd eu hoffer TG; a rhoi trefniadau gweinyddol ar waith iddynt ddychwelyd unrhyw eitemau eraill a dogfennau nad oes eu heisiau fel y gellir cael gwared â nhw'n briodol.

Rhoddir cymorth tebyg ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2017 i unrhyw Aelodau nad ydynt yn cael eu hethol eto, yn ogystal â dyddiad terfyn clir i gau cyfrifon TG ac E-bost ayyb.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL BRIDGES

Faint o weithiau, ar gyfartaledd ar gyfer y Cyngor cyfan, y cafodd Adroddiadau Blynyddol Aelodau eu lawrlwytho o wefan y cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf fesul Aelod?

(DS – er eglurdeb, yr hyn rwyf yn gofyn amdano yma yw ateb sy'n debyg i "*Cyflwynodd 20 Aelod Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar gyfartaledd, lawrlwythodd y rhain 7 gwaith yr un")*

Ymateb

Rheolir tudalennau'r Gwasanaethau Democrataidd ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd gan Modern.Gov gan ei bod yn System Rheoli Pwyllgorau wedi'i chreu at ddiben penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2015. Dywedwyd wrthym na fonitrir faint o bobl sy'n edrych ar dudalennau unigol y system ar hyn o bryd.

TRAFNIDIAETH, CYNLLUNIO A CYNALIADWYEDD (Y CYNGHORYDD RAMESH PATEL)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL BRIDGES

Mae llawer o balmantau gyda choed ar hyd eu hochrau yng Nghaerdydd wedi'u difrodi o ganlyniad i wreiddiau coed yn torri'r droedffordd. Nid oes neb eisiau gweld coed yn cael eu gwaredu, ond gall y difrod i balmantau achosi problemau, yn enwedig i'r rhai sydd ag anawsterau symudedd. Beth yw dull y cyngor o atgyweirio strydoedd o'r fath fel na fydd gwreiddiau yn achosi mwy o ddifrod, ac a oes cynllun hirdymor ar gyfer rhoi coed newydd yn lle'r rhai presennol i drio lleihau mwy o ddifrod?

Ymateb

Mae dros 12,000 o goed yn strydoedd Caerdydd. Er y maen nhw'n rhoi llawer o fuddion amgylcheddol i'r gymdogaeth ac, yn fwy penodol, i olyfa'r stryd, rhaid cydnabod bod angen gwaith cynnal a chadw ar eu cyfer, ac uwchlaw popeth y droedffordd ac aflonyddwch cysylltiedig ar wreiddiau.

Archwilir troedffyrdd o gwmpas y ddinas yn rheolaidd am bresenoldeb diffyg diogelwch a fydd yn cynnwys unrhyw ddifrod o ganlyniad i wthiad gwreiddiau. Os deuir o hyd i ddiffyg, gwneir gwaith cywiro amrywiol i fynd i'r afael â'r diffyg ac i'w waredu fel a ganlyn:

- Effaith bach ar ail-wynebu troedffordd
  Caiff slabiau/tarmac eu symud, caiff gwreiddiau bach eu torri a chaiff slabiau/tarmac eu dychwelyd.

- Effaith cymedrol ar ail-wynebu troedffordd
  Caiff slabiau eu symud, caiff unrhyw wreiddiau na fyddant yn effeithio ar sefydlogrwydd neu iechyd y goeden eu gwaredu a chaiff y droedffordd ei hadfer gyda tharmac..

- Effaith mawr ar ail-wynebu troedffordd
  Os nad yw gwaith cywiro'n bosibl yna, ar ôl ymgynghori â'r adran Parciau neu ar ôl cael ei chadarnhad, ystyrir gwaith i waredu coed ac adfer y droedffordd. Gallai coed bach gael eu plannu os ystyrir ei bod yn briodol.

Mae Timau Asedau Priffyrdd a Pharciau yn gweithio'n agos ar raglen disodli coed strategol. Bydd y Gwasanaeth Parciau'n rhaglennu eu

cynlluniau gwaredu a bydd contractwyr priffordd yn cynorthwyo gyda pharatoi ac adfer y droedffordd i sicrhau gorffeniad o ansawdd.

O ran cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac wrth ddisodli coed unigol a phlannu rhai newydd, rydym yn cymryd y cyfle i adolygu dewis y coed trwy sicrhau y osgoir coed sy'n dueddol i gael gwreiddiau sy'n ymddwyn yn rymus a/neu y gosodir rhwystrau gwreiddiau mewn tyllau plannu. Gall rhwystrau gwreiddiau ailgyfeirio gwreiddiau coed mewn cyfeiriad i lawr sy'n atal difrod i'r droedffordd; yn wir, mae'r Cyngor wedi bod yn gosod rhwystrau gwreiddiau wrth blannu coed stryd am nifer o flynyddoedd.

<u>CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL BRIDGES</u>

Os oes gan breswylydd TCC yn dangos rhywun yn torri rheoliadau parcio (e.e. parcio mewn man parcio i breswylwyr yn unig heb drwydded ddilys) a os ydynt yn rhannu hyn gyda'r cyngor ac os yw'r TCC yn ddigon da i roi tystiolaeth digonol o drosedd, a fyddai'r cyngor yn cymryd camau gweithredu? A beth fyddai'r broses o gyflwyno'r math hwn o dystiolaeth?

<u>Ymateb</u>

Caniateir unrhyw orfodi gan gamerâu gan ddyfeisiau wedi'u cymeradwyo yn unig a nid gan gamerâu TCC preifat, ni waeth ansawdd fideo'r camera. Defnyddir camerâu wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd ar gyfer tramgwyddau traffig sy'n symud yn unig, gan gynnwys mewn lleoliadau lle bo lonydd bysus, cyffyrdd sgwâr melyn a throadau wedi'u gwahardd.

Gorfodir tramgwyddau parcio ar y stryd, fel y rhai mewn ardaloedd trwydded i breswylwyr gan swyddogion cyngor ar y stryd yn unig. Y rheswm am hyn yw ei bod yn angenrheidiol gadarnhau'r lleoliad, a yw unrhyw drwyddedau wedi'u defnyddio a'u harddangos ac amgylchiadau llawn parcio'r cerbyd.

Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn archwilio unrhyw bryderon wedi'u codi mewn perthynas â mannau parcio i breswylwyr a, os deuir o hyd i dystiolaeth gan Swyddogion Gorfodi Sifil, caiff camau gweithredu priodol eu cymryd yn unol â'n polisi wedi'i gymeradwyo. Ar hyn o bryd, byddai camau gweithredu o'r math yn cynnwys cyflwyno hysbysiad cosb benodedig am beidio â chael trwydded parcio preswyl neu ddiddymu trwydded os darganfyddir bod y drwydded yn cael ei chamddefnyddio.